# Aberystwyth:
## Deall Nodweddion Trefol






Cadw


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2013
ISBN 978-1-85760-311-8
© Hawlfraint y Goron 2013

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.




Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.


Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

# Aberystwyth:

## Deall Nodweddion Trefol

**Cydnabyddiaethau**

Darparwyd y ffotograffau ar gyfer yr astudiaeth hon gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC). Aseswyd gwybodaeth archeolegol, a'r potensial archeolegol o fewn ardal yr astudiaeth, gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed o dan gontract i Cadw. Diolch i Michael Freeman am ddarparu cronfa ddata helaeth ar hanes y dref ac am fapio ei datblygiad hanesyddol. Darparodd yr Athro Peter Borsay o Brifysgol Aberystwyth ddeunydd ar gyfer yr astudiaeth hon hefyd a chyflwynodd Michael Freeman ac yntau sylwadau ar y testun. Rhoddwyd gwybodaeth am gerrig adeiladu gan Tim Palmer.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 5
Nodau'r Astudiaeth 5

**Cefndir Hanesyddol** 6
Hanes Cynnar 6
Y Canrifoedd Coll 11
'Brighton Cymru': Tref Hamdden 11
Tref Masnach 14
Adeiladu'r Dref: Twf Trefol a Menter Ddinesig 15
Ar ôl y Rheilffordd 18
Tref Dysg 22
Yr Ugeinfed Ganrif 23

**Topograffi Hanesyddol** 25
Tirwedd a Lleoliad 25
Adeiledd y Dref Ganoloesol 25
Y tu allan i'r Muriau: Patrymau Datblygu Newydd 27
Trefechan: Maestref Gynnar 28
Topograffi a Strwythur Cymdeithasol 29

**Nodweddion Adeiladu** 30
Cronoleg Datblygu 30
Mathau o Adeiladau 32
Arddull a Manylion Adeiladu 47

**Ardaloedd â Nodweddion** 57
1. Yr Hen Dref 57
   i. Y Stryd Fawr gyda'r Porth Bach a Stryd y Frenhines, Stryd y Bont a Heol y Wig 57
   ii. Maes Lowri a'r Castell 61
   iii. Stryd Powell, Y Lôn Gefn, Stryd William a Stryd Siôr 63
   iv. Ardal y Stryd Uchel, Stryd-y-Tollty a Than y Cae 64
2. Rhodfa'r Môr a'r Promenâd 66
3. Sgwâr Owain Glyndŵr, Rhodfa'r Gogledd, Stryd Portland, Ffordd Alexandra a Ffordd y Môr 69
4. Yr Harbwr 71
5. Trefechan 73
6. Ardal Morfa Mawr a Ffordd y Gogledd 74
7. Ardal Coedlan y Parc 75
8. Y Buarth a Phlascrug 76
9. Ardal Ffordd Llanbadarn 77
10. Penglais 79
11. Y Llyfrgell Genedlaethol a Champws y Brifysgol 81

**Datganiad Pwysigrwydd** 82

**Ffynonellau Dethol** 83

**Ôl-nodion** 85

---

**Rhestr o Fapiau** tudalennau 88–106

1. Y dref ganoloesol, yn dangos muriau, ffyrdd, bwrdeisi ac ardal adeiledig
2. Y dref tua 1800
3. Y dref tua 1820–21
4. Y dref yn 1834
5. Y dref yn 1889
6. Y dref yn 1905
7. Pob Ardal â Nodweddion
8. Pob Ardal â Nodweddion gyda Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, Parciau a Gerddi Cofrestredig a'r Ardal Gadwraeth
9. Yr Hen Dref (ardal 1)
10. Rhodfa'r Môr a'r Promenâd (ardal 2)
11. Sgwâr Owain Glyndŵr, Rhodfa'r Gogledd, Stryd Portland, Ffordd Alexandra a Ffordd y Môr (ardal 3)
12. Yr Harbwr (ardal 4)
13. Trefechan (ardal 5)
14. Ardal Morfa Mawr a Ffordd y Gogledd (ardal 6)
15. Ardal Coedlan y Parc (ardal 7)
16. Y Buarth a Phlascrug (ardal 8)
17. Ardal Ffordd Llanbadarn (ardal 9)
18. Penglais (ardal 10)
19. Y Llyfrgell Genedlaethol a Champws y Brifysgol (ardal 11)

# Cyflwyniad

## Nodau'r Astudiaeth

Mae nodweddion hanesyddol wrth wraidd natur unigryw leol ac ymdeimlad o frogarwch. Mae gan bob lle hanes unigryw, felly mae gan bob lle nodweddion hanesyddol unigryw, sy'n ased grymus o ran adfywio. Mae ymateb i nodweddion lleol yn amcan sy'n bwysig i gynllun da; gall ei gynnal gyflwyno buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae nodweddu trefol yn ddull a all ein helpu i ddefnyddio nodweddion hanesyddol i greu llefydd cynaliadwy a nodedig ar gyfer y dyfodol. Ei nod yw disgrifio ac egluro nodweddion hanesyddol trefi, rhoi ffocws i natur unigryw leol a helpu i wireddu gwerth llawn yr amgylchedd hanesyddol. Mae'n ceisio: llywio a chefnogi rhaglenni cynllunio, adfywio a chadwraeth cadarnhaol; helpu i wella ansawdd cyngor cynllunio; a chyfrannu at strategaethau dehongli ac addysg lleol.

Mae nodweddu trefol yn diffinio nodweddion hanesyddol unigryw trefi unigol ac yn nodi amrywiaeth y nodweddion ynddynt. Mae'n edrych ar hanes tref ac yn nodi ei mynegiant mewn patrymau gofod a chysylltiadau ac mewn traddodiadau adeiladu, sy'n rhan hanfodol o nodweddion hanesyddol.

Diben uniongyrchol yr astudiaeth hon yw llywio cynlluniau sy'n datblygu fel rhan o'r prosiect strategol i adfywio Aberystwyth. Drwy helpu i ddiffinio nodweddion arbennig y dref, bydd hefyd yn cynnig llwyfan cyffredin i bob polisi a rhaglen a fydd yn cyfrannu at y gwaith o gynnal a gwella nodweddion lleol.

## Nodyn ar enwau strydoedd

Mae llawer o strydoedd yn Aberystwyth wedi newid eu henwau sawl gwaith dros y blynyddoedd. Er mwyn osgoi dryswch, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r enwau modern.

*Aberystwyth o Ben Dinas (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



# Cefndir Hanesyddol



*Uchod: Y Promenâd yn ymestyn yn osgeiddig, wedi'i fframio â phentiroedd creigiog a chyda bryniau yn y cefndir, fel y'i gwelwyd gan H. Humphreys yn 1855 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*

*Dde: Y castell a datblygiadau diweddarach o fewn y terfynau a nodir gan furiau'r dref, gerllaw'r harbwr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*'It is impossible on entering Aberystwyth, to catch the first glimpse of it unaccompanied with the most vivid sensations of wonder and delight.'*[1]

## Hanes Cynnar

Er bod gan Aberystwyth holl nodweddion tref glan môr o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar yr olwg gyntaf, mewn gwirionedd mae iddi hanes llawer mwy hynafol, fel un o'r trefi â chestyll cyntaf a sefydlwyd gan Edward I. Sefydlwyd Aberystwyth yn 1277; fe'i hadeiladwyd gan Edmund o Gaerhirfryn, sef brawd Edward, ac roedd yn cynnwys castell a thref gaerog wedi'i chynllunio'n dynn o'r cychwyn cyntaf, a leolwyd er mwyn manteisio ar y cyfleusterau harbwr a gynigiai aber afon Rheidol. Er iddynt gael eu dinistrio yn ystod gwrthryfel gan y Cymry yn 1282, roedd muriau'r dref a'r castell wedi'u cwblhau bron erbyn 1289.[2]





*Chwith: Plascrug, y tybir yn rhamantus ei fod yn ymgorfforí castell canoloesol, ond sy'n ffoledd o'r ddeunawfed ganrif yn ôl pob tebyg (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*

*Gwaelod: Mae bryngaer Pen Dinas sy'n dyddio o'r Oes Haearn yn edrych dros Aberystwyth o'r de ( Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Nid hon oedd yr amddiffynfa gyntaf yn yr ardal: saif bryngaer Pen Dinas sy'n dyddio o'r Oes Haearn ar ben y bryn rhwng afon Rheidol ac afon Ystwyth ac roedd castell Normanaidd, a adeiladwyd gan Gilbert Fitz Richard ar ddechrau'r ddeuddegfed ganrif, ar lan dde-orllewinol afon Ystwyth a edrychai dros ei haber wreiddiol (Tan y Castell neu Hen Gastell Aberystwyth). Cyfeiriwyd at anheddiad ger y castell hwn yn 1197 pan gipiwyd y dref a'r castell gan Maelgwyn, un o feibion yr Arglwydd Rhys. Adeiladwyd ail gastell (Aber-rheidol) tua 1158 gan Roger Fitz Richard ond fe'i dinistriwyd gan yr Arglwydd Rhys yn 1164. Nid yw safle'r ail amddiffynfa hon yn hysbys ac, er bod traddodiad mai tŵr Plascrug (a ddymchwelwyd yn 1967) oedd y strwythur amddiffynnol cynharach, mae'n fwy tebygol o fod yn ffoledd o'r ddeunawfed ganrif nag amddiffynfa ganoloesol.[3]



Mae'n ddigon posibl nad y dref ei hun oedd yr anheddiad cyntaf ar y safle presennol, am fod rhywfaint o dystiolaeth bod poblogaeth a oedd eisoes yn byw yno wedi'i disodli. Mae'n bosibl bod y safle wedi ffurfio demên a oedd yn perthyn i un o arglwyddi Cymreig yr ardal a bod cymuned wedi ymsefydlu bob ochr i afon Rheidol a'i bod yn ymgymryd â rhywfaint o weithgarwch masnachol cyn i'r dref newydd gael ei sefydlu.[4] Roedd yr anheddiad a oedd yn gysylltiedig â'r eglwys fynachaidd ddylanwadol yn Llanbadarn hefyd yn bwysig. Parhaodd cysylltiad symbolaidd rhwng y dref newydd, a elwid yn Llanbadarn Gaerog, a'r fam-anheddiad tan tua 1400, pan ddefnyddiwyd yr enw Aberystwyth gyntaf. Roedd yn rhan o blwyf Llanbadarn tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



*Uchod: Adeiladwyd y glanfeydd a wal y cei ar ochr orllewinol yr harbwr gyntaf yn 1858 (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Fel trefi eraill sy'n dyddio o gyfnod y goresgyniad Edwardaidd, sefydlwyd Aberystwyth gan ddefnyddio'r elw o economi drefol hyfyw a oedd yn seiliedig ar dir a masnach. Cynigiai'r safle a ddewiswyd gan Edward I gyfle i adeiladu harbwr da, a fyddai'n ei gwneud yn bosibl cynnal y dref drwy fasnach. Roedd melin ar y safle erbyn 1278 a thirddaliadaethau helaeth y tu allan i'r muriau. Rhoddodd y siarter wreiddiol, a atgyfnerthwyd mewn grant diweddarach dyddiedig 1303, freintiau masnachu gwerthfawr i fwrdeisiaid y dref, gan sefydlu marchnad a ffeiriau blynyddol a'i gwneud yn ofynnol i bob math o fasnach rhwng afon Aeron ac afon Dyfi gael ei chynnal o fewn y dref.[5]

Adfeilion y castell yw'r unig strwythurau sy'n sefyll sydd wedi goroesi o'r cyfnod cynnar hwn ond mae'r patrwm o strydoedd a sefydlwyd pan grëwyd y dref gyntaf yn gyflawn ac, o'i mewn, gellir olrhain patrwm nodedig o leiniau o dir (bwrdeisi) mewn sawl rhan o'r dref o hyd.

Darparodd y siarter a roddwyd yn 1277 ar gyfer adeiladu amddiffynfeydd i'r dref a dechreuwyd cloddio ffos yn 1278. Erbyn 1280, roedd muriau cerrig yn cwmpasu ardal o ychydig o dan 20 hectar (50 erw).[6] Mae Stryd y Brenin, Stryd-y-Popty, Stryd y Ffynnon Haearn, Dan Dre a Than y Cae yn dal i ddilyn llinell y muriau a'r ffos. Roedd porth ar waelod y Stryd Fawr (sy'n esbonio'r enw Saesneg, sef Great Darkgate Street), wrth y gyffordd â Rhodfa'r Gogledd lle mae llinell Stryd y Popty a Stryd y Ffynnon Haearn yn croesi ar ei thraws, ac un arall ar waelod Stryd y Bont gerllaw'r bont. Roedd trydydd un ym mhen y Porth Bach, ond nid oedd modd cyrraedd y lan drwy borth ym mhen glan môr Heol y Wig tan yn llawer diweddarach. Goroesodd y muriau, yn rhannol, tan ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan symudwyd y pyrth o'r diwedd a chloddiwyd yr hyn a oedd yn weddill o'r muriau ar raddfa fawr at gyfer gwaith adeiladu. Nid yw eu hunion linell wedi'i hailganfod eto, ond mae darnau wedi'u datgelu weithiau mewn gwaith adeiladu, ac mae rhywfaint o waith cloddio wedi'i wneud.[7]





*Uchod: Er bod muriau'r dref eu hunain wedi hen ddiflannu, mae eu lleoliad wedi'i nodi'n glir o hyd yn y patrwm strydoedd. Mae'r grid o strydoedd a gwmpesid gan y muriau hefyd wedi goroesi yn y treflun modern (©Next Perspectives: Llywodraeth Cymru 2009).*

*Chwith: Mae bwrdeisi canoloesol i'w gweld yn glir o hyd ar y map hwn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*

*Adeiladau ar Stryd y Bont sy'n dyddio, o bosibl, o'r ddeunawfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Gwaith cynllunio trefol ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg: Maes Lowri (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*



*Yr Ystafelloedd Cyfarfod ym Maes Lowri, un o'r datblygiadau a gomisiynwyd gan y teulu Powell o Nanteos (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



O fewn y muriau, roedd cynllun gwreiddiol y dref yn cynnwys grid syml lle y rhedai un stryd o'r gogledd i'r de (Stryd y Bont/Heol y Wig bellach) o bont ar draws afon Rheidol gan ffurfio cyffordd groesgam lle y cyfarfu â'r brif stryd o'r dwyrain i'r gorllewin (y Stryd Fawr a rhan uchaf y Stryd Fawr). Rhedai dwy stryd llai pwysig yn gyfochrog â'r stryd hon — sef y Porth Bach a Stryd y Frenhines — nad oedd yr olaf fwy na thebyg yn fwy na llwybr. Cynlluniwyd y prif strydoedd gyda chyfres o fwrdeisi — y lleiniau llinellol hir sy'n nodweddiadol o drefi canoloesol: roedd 120 o'r lleiniau hyn yn cael eu meddiannu yn 1300, a 144 erbyn 1310.[8]

Llwyddodd yr ardal o fewn y muriau i gynnwys y dref yn gyfforddus am sawl canrif. Roedd yn cynnwys dwy ardal sylweddol o dir comin ar bob ochr i Stryd y Bont ac roedd ardaloedd agored eraill y tu ôl i'r eiddo yn Heol y Wig. Ni ddatblygwyd yr ardaloedd hyn tan ddiwedd y ddeunawfed ganrif ac ni chaniatawyd unrhyw waith adeiladu ychwaith ar y tir comin, a oedd y tu allan i'r muriau, tan 1797.

## Y Canrifoedd Coll

Pan gerddwn o amgylch Aberystwyth heddiw, gallwn olrhain patrymau o ddefnydd tir canoloesol ac edrych ar adeiladau sy'n adlewyrchu ffyniant y dref yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond prin yw olion y pum canrif rhwng y ddau gyfnod hyn. Gwyddom o'r cofnod dogfennol i Aberteifi a Chaerfyrddin ddatblygu'n gyflym nes eu bod yn cystadlu ag Aberystwyth. Er gwaethaf breintiau masnachol cynnar, a'r hwb a roddwyd iddi yn ddiweddarach gan y diwydiant plwm lleol, ni ffynnodd mewn gwirionedd. Cafodd ei llosgi gan Owain Glyndŵr yn 1401, ei chipio gan ei luoedd yn 1404 a'i hailfeddiannu gan y Saeson yn 1408. Pan ymwelodd John Leland â'r dref yn y 1530au, cafodd fod y muriau yn adfeilion. Ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, ni chynhwysai'r dref fwy na 'three or four-score inhabited houses and as many if not more uninhabited dwellings in decay'.[9]

Yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, sefydlwyd bathdy am gyfnod byr yn y castell a ddefnyddiai arian a geid o fwynau lleol. Wedyn, yn ystod y Rhyfel Cartref, cadwyd y castell gan y Brenhinwyr, fe'i cipiwyd gan luoedd y Senedd ar ôl gwarchae ac fe'i gwnaed yn adfail yn fwriadol yn 1649. Nid oedd yn syndod, efallai, fod Aberystwyth yn ymddangos yn 'miserable market town'[10] yn y flwyddyn ganlynol, ond o leiaf roedd presenoldeb y farchnad yn ei chynnal: 'The town is very long and ill-built… hath a very great market for corn, wool, cheese and provisions, supplying several counties therewith'.[11]

Mae dogfennau yn awgrymu iddi adfywio, i ryw raddau, o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, ac efallai fod adeiladu neuadd y dref (a oedd yn cael ei defnyddio erbyn 1693)[12] yn arwydd o hyder cynyddol. Erbyn 1726, roedd y dref yn boblog ond fe'i disgrifiwyd fel 'a very dirty black, smoaky place'.[13] Llwyddodd Aberystwyth i elwa ar dwf masnach a oedd yn gysylltiedig â chloddio plwm yn ei chefnwlad ac mae'n amlwg ei bod yn brif ganolfan fasnachu ranbarthol ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, er ei bod yn bosibl bod y traddodiad mai yma y sefydlwyd y banc cyntaf yng Nghymru yn 1762 yn anghywir.[14] O'r cyfnod rhwng canol a diwedd y ddeunawfed ganrif y gellir olrhain yr arwyddion digamsyniol cyntaf o ffyniant yn y treflun presennol. Mae'r adeiladau hynaf sydd wedi goroesi yn Aberystwyth yn dyddio o'r cyfnod hwn.

## 'Brighton Cymru': Tref Hamden[15]

*'The great influx of strangers... continually increasing, has caused a considerable number of houses to be built, and some in a style of superior elegance.'*[16]

Os oedd Aberystwyth mewn sefyllfa dda i rannu unrhyw ffyniant economaidd a oedd yn deillio o ddiwydiant rhanbarthol, roedd tueddiadau diwylliannol eraill ar waith: yn gyntaf, wrth i'r dref ddod yn ffasiynol ymhlith y boneddigion, ac yn ail, wrth iddi gael statws newydd fel tref glan môr.

Roedd y teulu Powell o Nanteos yn un o'r teuluoedd lleol blaenllaw ac, fel deiliaid eiddo sylweddol yn y dref, gwnaethant ddylanwadu ar rai agweddau ar ei datblygiad yn ystod degawdau cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg; yn arbennig ym Maes Lowri, lle yr adeiladwyd Ystafelloedd Cyfarfod yn 1820, a dwy res o dai tua 1827. Roedd yr ystad hefyd yn berchen ar eiddo ar Heol y Wig a'r Porth Bach, yn ogystal ag yn ardaloedd y Stryd Newydd a Stryd y Farchnad, ac roedd yn adeiladu yma rhwng 1809 a 1832. Ceir adeiladau o hyd



*Crynfryn House ar y Porth Bach oedd tŷ tref y teulu Bonsall, cyn iddo gael ei droi'n ysbyty yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Roedd y tŷ hwn, a gafodd ei adeiladu ar gyfer y teulu Pugh o Abermad, yn un o nifer o dai bonedd ar Stryd y Bont, stryd breswyl ffasiynol ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

yn yr ardaloedd hyn sy'n arddangos arwyddnod yr ystad.[17] Chwaraeodd ystad Gogerddan rôl flaenllaw hefyd ym materion y dref. Roedd gan y teulu Pryse o Ogerddan dŷ tref yma yn yr ail ganrif ar bymtheg (Tŷ Mawr, a arferai sefyll ar gornel y Porth Bach a Heol y Wig ar y safle lle mae Clwb Dewi Sant heddiw), ond erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd yr adeilad hwn wedi'i ddisodli gan dŷ mawr ar Stryd y Bont (Loveden House, 26 Stryd y Bont). Hefyd ar Stryd y Bont roedd tŷ tref y teulu Pugh o Abermad (Westminster). Er mai Stryd y Bont oedd y lleoliad mwyaf ffasiynol yn ôl pob tebyg, roedd tai tref bonedd mewn mannau eraill yn y dref hefyd; er enghraifft, Crynfryn House ar y Porth Bach oedd tŷ tref y teulu Bonsall o Fronfraith yn wreiddiol, cyn iddo gael ei ailadeiladu neu ei ailfodelu fel ysbyty rywbryd rhwng 1858 a 1867.[18]

Yn y cyfamser, Castle House oedd y tŷ cyntaf i gael ei adeiladu ar dir a arferai fod yn dir comin o fewn y muriau neu, o bosibl, ychydig y tu allan iddynt. Roedd y tŷ hwn, a gynlluniwyd gan John Nash ar gyfer Uvedale Price ac a gwblhawyd yn 1796, yn adeilad hynod, pictiwrésg ac mae'n debyg iddo chwarae rhan bwysig wrth wneud Aberystwyth yn gyrchfan i dwrisitiaid.[19] Wrth i ymwelwyr heidio i'r dref, buan y gwelwyd gwestai eraill yn ymddangos yn ychwanegol at y tri thafarn



*Rhodfa'r Môr, gyda'r hen faddondy môr yn y pellter (Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth).*

hirsefydledig (sef y Gogerddan Arms, y Talbot a'r Llew Du), yn ogystal â math nodedig newydd o adeilad glan môr — sef tai a adeiladwyd yn benodol i'w gosod. Parhaodd Aberystwyth i ddatblygu'n gyflym fel tref glan môr yn ystod degawdau cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ganolbwyntio i ddechrau ar Rodfa'r Môr lle roedd y pum tŷ cyntaf wedi'u codi erbyn 1806. Roedd y 'sweet level space, situated on the margin of the sea, which nature has formed a perfect crescent, and Art has embellished with light and elegant structures'[20] wedi ymestyn y tu hwnt i derfyn presennol Ffordd y Môr erbyn y 1820au. Erbyn 1848, roedd 60 o dai yn ymestyn mewn cromlin barhaus hyd at yr hyn a elwir yn Faes Albert bellach — 'modern-built houses, let as lodgings, either entire or in apartments'. [21] Roedd cyfleusterau ymdrochi a chyfleoedd i bromenadio hefyd yn elfennau pwysig o dref glan môr lwyddiannus. Cymerodd Dr Rice-Williams ran o'r tir diffaith a elwir yn Fryn Diodde (a ddynodir gan y penrhyn creigiog ger safle'r cysgodfan presennol ar y Promenâd) ar brydles i sefydlu baddondy môr yn 1809. Roedd y baddondy yn cynnwys boeler i gynhesu'r dŵr, baddonau plymio oer, baddon cawod, baddon ager, siambrau ac ystafelloedd eistedd.[22] Roedd peiriannau ymdrochi hefyd ar gael. Tua'r un pryd, roedd Mr Probart, stiward i ystad Powys, wedi cymryd safle'r castell ar brydles a gosod llwybrau cerdded yno 'planned with some taste and ingenuity'.[23] Wedyn, yn 1819, dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu promenâd a ariannwyd drwy danysgrifiad y cyhoedd.[24] Hefyd tua'r adeg hon, roedd 'pleasant walk' ger Plascrug i Lanbadarn, a âi heibio i'r ffynnon haearn, a ddarganfuwyd yn 1779.[25]



*Pont Trefechan a'r harbwr, fel y'u darluniwyd gan Henry Gastineau yn y 1830au (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*



*Roedd harbwr yn elfen bwysig o economi Aberystwyth o'r cychwyn. Cafodd ei ailddatblygu a'i ehangu er mwyn diwallu anghenion a oedd yn newid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

# Tref Masnach

Yn y cyfamser, ffynnodd Aberystwyth hefyd fel tref fasnachu. Ysgogwyd cynnydd cyffredinol mewn gweithgarwch economaidd yn y dref yma, fel mewn mannau eraill, gan ddatblygiadau diwydiannol yn ei chefnwlad, ac yn arbennig ddatblygiad y diwydiant cloddio plwm. Aberystwyth oedd y prif borthladd ar gyfer allforio plwm o fwyngloddiau yng Nghwm Ystwyth ac mewn mannau eraill. Mae'r ffaith i'r tollty gael ei symud i Aberystwyth o Aberdyfi yn 1763, ac i ymddiriedolaeth harbwr gael ei sefydlu yn 1780 yn awgrymu adfywiad mewn masnach arfordirol, er na ddechreuwyd ar welliannau i'r harbwr tan 1836.

Roedd afon Rheidol wedi bod yn ased pwysig i'r dref ers ei sefydlu. Darparai harbwr diogel, a oedd yn hafan ar gyfer adeiladu llongau. Serch hynny, fel harbwr, roedd gan Aberystwyth un anfantais, sef bar tywod wrth ei fynedfa a oedd yn rhwystro llongau mawr rhag mynd i mewn. Rhoddodd Deddf Seneddol yn 1780 bwerau 'to repair, enlarge and preserve' yr harbwr, ond aeth sawl degawd heibio cyn i'r gwaith o wella'r harbwr ddechrau o ddifrif.[26] Fodd bynnag, erbyn 1840, 'nothing in Aberystwyth so powerfully exhibits the march of its improvements than the works at the New Harbour. That it is a great ornament to the town is beside the present question, its utility being the point particularly here adverted to'.[27] Roedd gwaith ar yr harbwr wedi dechrau yn 1836 pan adeiladwyd pier cerrig ar ochr ddeheuol yr harbwr i amddiffyn ei fynedfa, a hwyluswyd gan ffordd newydd a bontiai afon Ystwyth gan gysylltu ag arglawdd i Alltwen ar ochr bellaf traeth y de, lle y cloddiwyd cerrig ar gyfer y pier hwn.[28]





*Uchod chwith: Enghraifft wych o ffryntiad siop cynnar sydd wedi goroesi mewn adeilad o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Stryd y Bont (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Uchod dde: Mae'r porth bwaog hwn ar stryd y Porth Bach yn arwain at gwrt o fythynnod a adeiladwyd y tu ôl i'r brif stryd (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Yn 1858 ymestynnwyd y pier hwn ac adeiladwyd glanfeydd a wal cei ar ochr orllewinol yr harbwr ar hyd llinell Ro Fawr, sef y gefnen raeanog sy'n ymestyn tua'r de o'r castell. Adeiladwyd warysau yno a sefydlwyd melin lifio ac iard goed ar ochr y dref i'r harbwr.[29] Cafodd rhagor o welliannau eu gwneud yn y 1870au, gydag atgyweiriadau ac estyniadau i'r pier: y tro hwn, daethpwyd â'r cerrig i mewn o Ystad Meurig ar Reilffordd Manceinion ac Aberdaugleddau, ar hyd llinell leol a gysylltai'n uniongyrchol â'r harbwr ar y bont ar draws afon Ystwyth.[30] Fodd bynnag, erbyn hyn, roedd y rheilffordd ei hun yn cludo llawer o'r fasnach a allai fod wedi cynnal yr harbwr ar un adeg, gan leihau ei rôl fasnachu yn raddol.

Bu Aberystwyth yn dref farchnad ers ei sefydlu yn 1277 ac am gyfnod hir y groesffordd yng nghanol y dref gaerog oedd prif ganolbwynt gweithgarwch masnachu. Dyma safle neuadd y dref a adeiladwyd yn yr ail ganrif ar bymtheg ac a ddymchwelwyd yn 1770. Cafodd yr adeilad a'i disodlodd, a oedd yn cynnwys marchnad ar y llawr isaf agored, ei ddymchwel yn ei dro yn 1885. Gerllaw, adeiladwyd marchnad gig dan do ar dir ym Maes Iago yn 1823. Wedyn, yn 1835, penderfynodd Comisiwn Gwella newydd y dref y dylai'r 'stalls and standing places near to and about the town hall used by hawkers, hatters and the sellers of fruit, vegetables etc, by reason of their obstructing the footways be removed to the new market house in Market Street'.[31] Dyma oedd y farchnad ŷd, a adeiladwyd yn 1832 ac a ailadeiladwyd ddwywaith yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg cyn cael ei dymchwel a'i disodli gan adeilad Ymddiriedolaeth Pantyfedwen yn 1966–67. Gwasanaethai'r adeilad ym Maes Iago fel y farchnad gig nes i'r Smithfield gael ei hagor gerllaw'r rheilffordd yn 1870.[32]

Erbyn hyn, roedd siopau parhaol wedi dod yn bwysig iawn i economi'r dref. Mae rhai enghreifftiau cynnar arbennig o gain wedi goroesi ar Stryd y Bont a Heol y Wig, ond ym mhob rhan o'r dref ceir dilyniant eithriadol o dda o ffryntiadau siopau sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Dim ond ar y Stryd Fawr y gadawodd pwysau masnachol ddiwedd yr ugeinfed ganrif eu hôl, a hyd yn oed yma mae rhai enghreifftiau da o adeiladau masnachol cynharach wedi goroesi.

## Adeiladu'r Dref: Twf Trefol a Menter Ddinesig

Er mwyn darparu ar gyfer y bywyd trefol cynyddol hwn, tyfodd Aberystwyth yn gyflym iawn rhwng 1800 a 1840. Caniatawyd adeiladu y tu allan i furiau'r dref gyntaf yn 1797. Yn y flwyddyn honno, adeiladwyd adeilad cyntaf Capel Bethel ar Stryd y Popty a chymerwyd sawl darn o dir y tu allan i'r Porth Tywyll ar brydles ar gyfer adeiladu.



*Codwyd Tai Crynfryn ar safle'r ardd a arferai fod y tu ôl i Crynfryn House (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Adeiladwyd Rhes Crynfryn yn wreiddiol ar hyd ffin yr ardd y tu ôl i Crynfryn House ar y Porth Bach; gan ddilyn, yn ôl pob tebyg, linell wreiddiol muriau'r dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Roedd y cyntaf o'r rhain ar safle presennol Banc National Westminster a dilynodd eraill ar hyd yr hyn a ddatblygodd yn Rhodfa'r Gogledd yn ddiweddarach. Yn y cyfamser, fel y gwelwyd, roedd gwaith datblygu hefyd yn mynd rhagddo ar hyd Rhodfa'r Môr. Ar yr un pryd, roedd pwysau cynyddol ar y tir comin o fewn y muriau. Dechreuwyd datblygu'r Stryd Uchel (tir comin Penmaesglas gynt) yn 1792, pan gafodd John Parry lain o dir ar gyfer adeiladu, yn iawndal am ddymchwel tŷ o'i eiddo a oedd yn bargodi dros y palmant yn y Stryd Fawr.[33] Ar ôl hynny, adeiladwyd ar lonydd cefn a hyd yn oed rai o'r hen fwrdeisi hefyd. Un o'r datblygiadau cydlynol cynharaf o lain o dir cefn oedd Rhes Crynfryn, a adeiladwyd gan Syr Thomas Bonsall yn erbyn ffin gardd ei dŷ tref ac yn agos at linell muriau'r dref. Ymddengys i'r tai gael eu hailadeiladu, ond mae'r teras wedi goroesi, ynghyd ag un diweddarach a adeiladwyd yn yr hen ardd hefyd. Crëwyd rhai strydoedd newydd hefyd: cynlluniwyd y Stryd Newydd a Stryd y Farchnad yn y 1830au, y ddwy ohonynt ar dir a oedd yn eiddo i'r teulu Powell o Nanteos.



*Y Stryd Uchel oedd un o'r strydoedd newydd cyntaf i gael ei chynllunio ar gyfer gwaith datblygu o fewn terfynau'r dref ganoloesol. Dechreuodd y gwaith adeiladu yno ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif ac, er iddynt gael eu hailfodelu a'u hailadeiladu, mae'n debyg bod rhai o'r adeiladau gwreiddiol wedi goroesi (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Roedd llawer o'r tir a ryddhawyd ar gyfer adeiladu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn eiddo i gorfforaeth y dref. Ar ôl amddiffyn eu hawliau i'r tir comin hwn a gâi ei bori drwy gydol y ddeunawfed ganrif, o'r diwedd gwnaethant gyfaddef y gallai fod yn fwy buddiol ei ddatblygu ar gyfer adeiladu. Rheolwyd y broses hon yn ofalus drwy osod tir ar brydles yn hytrach na'i werthu. Cawn gipolwg o hyn ar y Stryd Uchel, lle y nododd yr ail brydles y dylid adeiladu saith tŷ 'of the same size and dimensions' â'r rhai a adeiladwyd gan John Parry ar y llain gyfagos.[34]

Yn y cyfamser, ar dir a arferai fod yn gorstir ar ochr ddwyreiniol y dref — a oedd hefyd yn eiddo i'r gorfforaeth — roedd datblygiadau wedi'u cynllunio'n gydlynol ar ffurf grid o strydoedd newydd rhwng llinell y muriau a therfyn y dref ar droed Bryn Penglais. Roedd y grid hwn yn cynnwys llinellau Ffordd y Môr a Morfa Mawr, gyda Rhodfa'r Môr, Stryd y Gorfforaeth a Stryd y Baddon, Stryd Portland, y Stryd Fawr, Stryd Cambria a Ffordd Alexandra. Dangosir y llinellau hyn yn glir ar fap dyddiedig 1809,[35] pan oedd rhywfaint o waith datblygu eisoes wedi'i wneud ar ochr ogleddol Rhodfa'r Gogledd, ond ni ddechreuwyd rhoi prydlesau adeiladu mewn rhannau eraill o'r ardal tan 1813.

Yn 1835, cymerodd gorfforaeth ddiwygiedig gyfrifoldeb am weinyddu'r dref, a sefydlwyd Comisiwn Gwella yn yr un flwyddyn. Yr olaf oedd yn gyfrifol am sefydlu cyflenwad dŵr y dref a ddeuai o gronfa ddŵr newydd a adeiladwyd ym mhant Bryn y Môr yn 1837 ac am oleuadau nwy — agorwyd gwaith nwy'r dref yn 1838, ychydig y tu allan i furiau'r dref y tu ôl i Dan Dre.[36]




*Uchod: Rhan o Rodfa'r Môr a'r Promenâd, fel y'u darluniwyd yn 1867. Roedd y teras hir wedi'i ailadeiladu'n ddiweddar: dim ond adeiladau deulawr oedd gan ei ragflaenydd (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*

## Ar ôl y Rheilffordd

Roedd cyfnod o dwf cyflym wedi dod i ben erbyn tua 1840, ond yn sgil dyfodiad Rheilffordd Cambrian yn 1864 a Rheilffordd Manceinion ac Aberdaugleddau dair blynedd yn ddiweddarach rhoddwyd hwb newydd i ffawd y dref a esgorodd ar gyfnod arall o ehangu. Nid oedd hyn wedi'i gyfyngu i brosiectau adeiladu newydd ac ymestyn terfynau'r dref yn ffisegol yn unig; disodlwyd llawer o adeiladau a oedd yn bodoli eisoes yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg — yn wir mae'n debyg i lawer o leiniau gael eu hailddatblygu fwy nag unwaith.

Yn y 1860au a'r 1870au cafodd llawer o dai naill ai eu hadeiladau neu eu hailadeiladu: er enghraifft, i'r degawdau hyn y mae llawer o gymeriad presennol Stryd Portland, Ffordd Portland, ochr ddeheuol Rhodfa'r Gogledd a'r Stryd Newydd yn perthyn. Ailfodelwyd rhannau helaeth o'r Promenâd hefyd yn ystod y cyfnod hwn. At hynny, dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu pen gogleddol Rhodfa'r Môr hefyd ar ôl i Westy'r Queen's gael ei adeiladu yn 1864: 'The Queens Hotel and a new and beautiful line of terrace has been laid out, which is protected against the fury of the winter seas by an excellently constructed wall, ornamented with bastions and surmounted by a double line of iron railings. The building of this wall effected one of the most important improvements in the town, completing as it did the contour of the terrace, reclaiming from the sea a long and gradually increasing building ground'.[37]



*Dde: Aberystwyth yn edrych tua'r de, yn 1869. Roedd Gwesty'r Queen's yn nodi terfyn y gwaith datblygu ar hyd y Promenâd ar yr adeg hon, er bod y Promenâd a'r morglawdd eisoes wedi'u hadeiladu (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*





*Chwith uchaf: Er bod Stryd Portland a Ffordd Portland wedi'u cynllunio erbyn y 1830au, cawsant eu hailddatblygu'n sylweddol ar ôl dyfodiad y rheilffordd, a roddodd hwb i economi'r dref yn y 1860au a'r 1870au (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde uchaf: Dechreuodd datblygiadau ar Rodfa Fuddug ym mhen gogleddol y Promenâd ar ddiwedd y 1860au a'u cwblhau pan adeiladwyd Neuadd Alexandra yn 1896 (Hawlfraint y Goron: CBHC).*





*Canol chwith: Adeiladwyd Gwesty'r Queen's gyda thipyn o steil ac uchelgais, ond hanes byrhoedlog oedd iddo fel gwesty (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Canol dde: Y tu hwnt i Westy'r Queen's, gosododd y teras hwn y cynsail ar gyfer newid arddull, er bod rhywun wedi paentio dros y gwaith brics amryliw gwreiddiol, gwaetha'r modd (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Roedd cynlluniau uchelgeisiol a luniwyd gan J. P. Seddon yn 1865 ar gyfer y tir adeiladu hwn. Cafodd y cynlluniau hyn eu glastwreiddio i gynnwys rhes o 25 o dai yn 1868, ond dim ond tri a oedd wedi'u hadeiladu erbyn 1871, ac er i'r teras barhau mewn arddull gothig, roedd yn ddatblygiad llawer symlach ac ni chafodd ei gwblhau tan i Neuadd Alexandra gael ei hadeiladu yn 1896.[38]

Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, datblygodd y teulu Powell o Nanteos eu tir rhwng Dan Dre a Stryd y Frenhines; ac felly daeth Stryd Powell, Stryd William a Stryd Siôr oll i fodolaeth (mae traddodiad iddynt gael eu hadeiladu er mwyn lletya gweithwyr rheilffordd ac yn ddiau bwriadwyd iddynt fod yn dai crefftwyr). Ychwanegwyd at y gwaith datblygu a oedd wedi'i wneud yn ardal Penmaesglas o amgylch y Stryd Uchel a Stryd-y-Tollty yn ystod y cyfnod hwn, unwaith eto, drwy adeiladu tai crefftwyr yn bennaf, ond yn y fan hon roedd cysylltiadau cryf â'r môr.

Roedd hwn yn gyfnod o uchelgais mawr ond bu rhai prosiectau afrad yn fethiant trawiadol. Ymhlith y rhain roedd Gwesty'r Castle: 'This most exotic of High Victorian Buildings has an extraordinary history



*Chwith: Datblygodd bythynnod nodedig ar dir a oedd yn perthyn i'r teulu Powell o Nanteos o'r 1860au (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Chwith: Adeiladwyd y strydoedd yn rhan yr harbwr o'r dref (Penmaesglas) i raddau helaeth yn ystod y 1860au a'r 1870au (Hawlfaint y Goron: CBHC).*



*Gwesty'r Castle oedd un o'r prosiectau adeiladu mwyaf afrad yn ystod y 1860au. Er mai hanes byrhoedlog oedd iddo fel gwesty, sicrhaodd ddyfodol iddo'i hun fel Coleg Prifysgol Cymru (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

to match'.[39] Yn 1864, caffaelwyd Castle House gan Thomas Savin, hyrwyddwyr rheilffyrdd, er mwyn ffurfio craidd gwesty enfawr i dwristiaid. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, roedd Savin wedi mynd yn fethdalwr ac roedd y gwesty yn dal heb ei orffen, 'a melancholy monument of the money market panic in 1865'.[40] Adeiladwyd Gwesty'r Queen's, 'one of the finest buildings of its class',[41] ar yr un pryd, ond methodd y gwesty hwnnw hefyd ac fe'i gwerthwyd yn 1877, er iddo barhau i gael ei ddefnyddio fel gwesty tan 1945.[42] Dechreuwyd ar adeiladu'r pier hefyd ar yr adeg hon, yn 1864, ond ni ddarparwyd y pafiliwn tan ail gam datblygu, yn 1896.

Mae'n amlwg iawn o'r stoc adeiladau sydd wedi goroesi fod y dref yn ffynnu yn y blynyddoedd o gwmpas 1900. Yn 1895, nododd y maer 'during the past two years, Aberystwyth has passed through a stage before unknown to living man… It was a little mine of gold'.[43] Yn ogystal â phrosiectau dinesig amlwg megis Gwesty'r Cambria (1895), ailadeiladu'r pier a Rheilffordd y Clogwyn (1896) — y cyflawnwyd pob un ohonynt gan Gwmni Gwella Aberystwyth — mae llawer o fentrau preifat a masnachol yn dyddio o'r cyfnod hwn. Gyda'u deunyddiau adeiladu nodedig (sy'n aml yn ymgorffori deunyddiau a fewnforiwyd ar y rheilffordd megis brics a theils o Riwabon) a'u harddulliau newydd (sy'n cefnu ar yr arddull Sioraidd draddodiadol, a fu mor nodweddiadol o'r dref cyn hynny), maent yn elfen bwysig o gymeriad hanesyddol y dref.

Unwaith eto yn ystod y cyfnod hwn, gwnaed gwaith ailddatblygu helaeth, o fewn ffiniau presennol y dref a hefyd gwaith ehangu y tu allan iddynt, wrth i'r maestrefi yn y Buarth, Ffordd Llanbadarn a Ffordd y Gogledd gael eu hadeiladu.[44]









*Uchod: Un o'r enghreifftiau mwyaf trawiadol o'r adeiladau masnachol rhodresgar sy'n dyddio o tua 1900 (Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth).*

*Chwith: Ymddangosodd brics coch o Riwabon yn Aberystwyth ar ôl dyfodiad y rheilffordd ac maent yn gyfraniad cain at gymeriad y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn coroni ochr y bryn uwchlaw'r dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



# Tref Dysg

Un o'r prif ddylanwadau ar dwf a chymeriad tref Aberystwyth o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd Coleg Prifysgol Cymru, a sefydlwyd yn adeilad gwesty aflwyddiannus y Castle yn 1872. Canlyniad ymgyrch hir i sefydlu prifysgol i Gymru oedd hyn, a oedd wedi dechrau yn 1854. Hugh Owen oedd arweinydd yr ymgyrch hon, a gafodd egni newydd ar ddiwedd y 1860au yn ogystal ag arian, a gyfrannwyd gan y werin. Cynigiwyd amrywiol leoliadau ar gyfer coleg prifysgol, ond roedd gan Aberystwyth y fantais o fod ag adeilad addas a oedd ar gael yn rhad. Serch hynny, roedd y llywodraeth yn gyndyn i gefnogi'r coleg a hyd yn oed pan dderbyniwyd egwyddor coleg prifysgol i Gymru yn 1882, i ddechrau ni roddwyd statws cyfartal i Aberystwyth â'r colegau a sefydlwyd yng Nghaerdydd a Bangor. Cafodd adeiladau'r gwesty eu hymestyn a'u hailadeiladu'n raddol wrth i arian ddod i law ac o ganlyniad i ddifrod a achoswyd gan dân yn 1886. Disodlwyd Castle House ei hun yn 1896-98. Aeth y coleg ymlaen i gaffael tir ar y Buarth, lle yr adeiladwyd labordai (yr Ysgol Gelf bellach) yn 1905-07, ac ym Mhenglais yn 1929, lle y dechreuwyd ar y gwaith adeiladu ar ddiwedd y 1930au. Cymerodd hyd yn oed fwy o amser i sefydlu'r



*Tai ar hyd glan yr afon yn Nhrefechan, a adeiladwyd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif gan gyngor y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Llyfrgell Genedlaethol: gan ddechrau gyda'r llyfrgell a sefydlwyd gan Gymdeithas y Cymrodorion yng nghanol y ddeunawfed ganrif, fe'i ffurfiolwyd wedyn yn gynnig (a wnaed yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1858) am amgueddfa a swyddfa gofnodion ar gyfer llawysgrifau a llyfrau Cymraeg. Unwaith eto chwaraeodd Hugh Owen ran allweddol yn y broses o ddatblygu'r cynnig hwn yn 1873, gan gysylltu'r hyn a fyddai'n llyfrgell â'r Coleg Prifysgol newydd. Ni wireddwyd y syniad tan ddechrau'r ugeinfed ganrif ac, er i Gaerdydd hefyd honni bod ganddi hawl i fod yn gartref i lyfrgell genedlaethol, roedd gan Aberystwyth safle, casgliad ardderchog o lyfrau a llawysgrifau a rhoddion sylweddol eisoes. Fe'i cadarnhawyd fel lleoliad ar gyfer y llyfrgell yn 1905 a chafodd Siarter Ymgorffori yn 1907. Cadwyd y casgliadau yn yr Ystafelloedd Cyfarfod ym Maes Lowri nes bod adeilad newydd ar gael. Dechreuodd y gwaith yn 1911: cwblhawyd y cam cyntaf yn 1916, yr ail yn 1937.

Yn ogystal â'u cyfraniad enfawr at fywyd diwylliannol Cymru, mae'r sefydliadau hyn wedi rhoi rhai adeiladau a thirluniau eithriadol i Aberystwyth. At hynny, mae'n debyg iddynt bennu cymeriad y datblygiadau maestrefol nodedig yn Ffordd Llanbadarn, y Buarth a Ffordd y Gogledd hefyd.

## Yr Ugeinfed Ganrif

Roedd corfforaeth Aberystwyth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi bod yn anarferol o fentrus o ran ei hymagwedd at ddatblygu a rheoli adeiladau, a arweiniodd at dwf trefol a gynlluniwyd yn dda. Mabwysiadodd hefyd ymagwedd oleuedig at ddarparu tai yn uniongyrchol. Un enghraifft o hyn oedd menter gynnar ar ran cyngor y dref i godi adeiladau yn uniongyrchol yn y 1870au, pan adeiladwyd Bythynnod Gogerddan ar droed Bryn Penglais o dan gynllun a alluogodd meddianwyr i ddod yn berchenogion ar eu tai.[45] Dilynwyd hyn ar ddechrau'r ungeinfed ganrif gan enghreifftiau eraill o fenter drefol a ddechreuodd gyda Stryd Cae Glas yn 1904 ac a barhaodd mewn ymgyrchoedd i glirio slymiau yn Stryd y Crynwr, Rhes-y-Poplys a Rhes y Drindod, wedyn Teras Glanrafon a Gerddi'r Ffynnon, Trefachan, yn 1912. Caffaelwyd yr hen farics ar droed Bryn Penglais gan y cyngor ac fe'i haddaswyd yn dai yn yr un flwyddyn.[46]

Roedd y cyngor y gyfrifol am waith datblygu llawer mwy helaeth ym Mhenparcau yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel. Yn ystod yr un cyfnod codwyd rhai adeiladau preifat, yn enwedig ar ochr ddwyreiniol y dref, lle y datblygwyd Llwyn Afallon yn y 1930au.[47] Parhaodd y dref i ymestyn y tu hwnt i gampws y brifysgol gyda chymysgedd o ddatblygiadau cyhoeddus a phreifat ar ôl yr Ail Ryfel Byd.



*Yn ogystal â glan môr ardderchog, roedd gan Aberystwyth dirwedd fewndirol amrywiol a diddorol iawn, a gynigiai gyfleoedd ar gyfer archwilio hamddenol, fel y darlunnir yn y ddelwedd hon sy'n dyddio o'r 1850au (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*

# Topograffi Hanesyddol





*Uchod chwith: Mae'r grisiau sy'n disgyn o Res Crynfryn i Rodfa'r Môr yn cyd-fynd yn agos â lleoliad mur y dref ganoloesol (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Uchod dde: Llys Melinwynt, enghraifft nodedig o fythynnod bach sydd wedi goroesi yn gorwedd ynghudd y tu ôl i stryd y Porth Bach (Hawlfraint y Goron; CBHC).*

## Tirwedd a Lleoliad

Saif Aberystwyth ar benrhyn creigiog nodedig sy'n ymestyn o wastadedd arfordirol isel gerllaw aberoedd dwy afon. Mae'r golygfeydd arfordirol ar y naill ochr a'r llall i'r dref yn drawiadol. Yng nghefn gwlad, y tu hwnt i orlifdir afon Rheidol, mae'r tir yn codi'n gyflym tua Mynyddoedd Cambria. Felly, roedd y dref wedi'i hamgylchynu i bob pwrpas gan dir uwch y tu hwnt i ffos naturiol o gorstir a gorlifdir, tra hefyd yn wynebu darn hir o arfordir. Mae'r topograffi naturiol hwn wedi dylanwadu'n fawr ar ddatblygiad y dref, gan gynnig hafan ddiogel a chadarnle yn ystod yr oesoedd canol a ffynhonnell gyfoethog o brofiadau pictiwrésg wrth iddi ddatblygu fel cyrchfan i dwristiaid. Er i'r dref ddatblygu ac ymestyn dros gorstir yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyfyngwyd ar ei thwf gan orlifdir afon Rheidol tan yn gymharol ddiweddar. Yn sgil adeiladu Cronfa Ddŵr a gorsaf drydan Cwm Rheidiol, roedd yn bosibl rheoli llifogydd, ond agorodd hyn lifddor i waith datblygu ar lawr y dyffryn ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, gan symud y ffocws i ffwrdd o'r craidd trefol hanesyddol a phylu ymylon y dref hanesyddol dra nodedig hon.

## Adeiledd y Dref Ganoloesol

Wrth graidd Aberystwyth mae tref gaerog ganoloesol a gynlluniwyd. Er i'r muriau ddiflannu, gellir olrhain eu llinell yn glir o hyd; mae cynllun canoloesol y strydoedd yn gyflawn ac mae adeiledd y lleiniau gwreiddiol a gynlluniwyd ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg wedi goroesi mewn rhai mannau. Y prif strydoedd oedd: Stryd y Bont — Heol y Wig, y Stryd Fawr a'r Porth Bach, gyda Stryd y Frenhines yn ddim mwy na lôn gefn. Yn draddodiadol, cyffordd y ddwy brif stryd oedd safle'r farchnad ac mae'n bosibl bod yr ardal rhwng rhan uchaf y Stryd Fawr a Lôn Rhosmari yn agored yn wreiddiol fel marchnad. Nid oes unrhyw gynllun lleiniau amlwg wedi goroesi yn yr ardal hon, sy'n awgrymu, o bosibl, iddi gael ei datblygu drwy dresmasu ar dir ar arferai fod yn agored.

Mae cynllun nodweddiadol bwrdeisi yn amlwg wedi goroesi mewn rhai rhannau o'r dref, yn enwedig ar ochr orllewinol Stryd y Bont, ar Heol y Wig i'r gogledd o'r Stryd Newydd, yn rhannol ar ochr ddeheuol y Stryd Fawr ac i'r gogledd ohoni i'r dwyrain o Stryd y Farchnad. At hynny, mae'r cynllun lleiniau hanesyddol hwn yn cael ei adlewyrchu bron



*Brig: Mae Maes Lowri yn ddatblygiad ffurfiol o dai tref Sioraidd rhagorol, a gomisiynwyd gan y teulu Powell o Nanteos (Hawlfraint y Goron: CBHC).*




*Gwaelod: Mae'r Stryd Newydd (newydd yn 1828) yn rhoi mynediad uniongyrchol i Faes Lowri ac Eglwys Sant Mihangel (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

ymhobman yn y patrwm adeiladu ar hyd ffryntiadau strydoedd, hyd yn oed lle mae'r adeiladau eu hunain yn dyddio o gyfnodau llawer mwy diweddar — mae hanes gwahanol pob llain wedi esgor ar amrywiaeth gweledol mawr. Cyfyngwyd yn rhannol ar dwf o fewn y muriau gan y cynllun lleiniau hwn — darparai'r lleiniau eu hunain fframwaith ar gyfer gwaith datblygu gyda chyrtiau a rhesi gorlawn. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd hyn wedi arwain at ganol tref drwchus ei phoblogaeth. Dymchwelwyd llawer o'r cyrtiau a'r rhesi hyn yn ddiweddarach, ond mae rhai wedi goroesi, yn enwedig oddi ar stryd y Porth Bach (Llys Melinwynt, Maes Lowri), ac maent yn enghreifftiau pwysig o batrwm o dwf trefol a arferai fod yn nodweddiadol.

Cafodd y cynllun trefol hwn sy'n dyddio i bob diben o'r cyfnod canoloesol ei addasu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, drwy greu strydoedd newydd. Cynlluniwyd y Stryd Newydd tua 1828 (efallai ochr yn ochr ag ail eglwys Sant Mihangel, a oedd ar yr un aliniad â hi) a Stryd y Farchnad a sefydlwyd yn 1832 — y ddwy ohonynt ar dir a oedd yn eiddo i'r teulu Powell o Nanteos.

Roedd Aberystwyth yn anarferol am ei bod wedi cadw ardaloedd helaeth o dir agored o fewn y muriau tan ddiwedd y ddeunawfed ganrif — roedd yr ardaloedd hyn yn fwy addas i broses ddatblygu fwy ffurfiol. Yng nghornel ogledd-orllewinol y





*Chwith pellaf: Glan-y-Môr, fel y'i darluniwyd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cilgant o lety glan môr a ddilynai ystum y bae (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*

*Chwith: Cynlluniwyd Rhodfa'r Gogledd fel stryd newydd lydan y tu allan i'r muriau ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'i datblygwyd yn llwyddiannus ac fe'i hailddatblygwyd wrth i'r ganrif fynd yn ei blaen (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

dref, roedd gan y teulu Powell o Nanteos ddarn sylweddol o dir, lle y datblygwyd yr Ystafelloedd Cyfarfod a Maes Lowri yn y 1820au, gan sefydlu cynllun ffurfiol o amgylch sgwâr a oedd wedi'i amgylchynnu gan Eglwys Sant Mihangel a Castle House ar ei hochrau eraill. Collwyd y man agored pan ailadeiladwyd Eglwys Sant Mihangel ar ei safle presennol yn y 1890au. Roedd y teulu Powell hefyd yn berchen ar dir yng nghornel dde-ddwyreiniol y dref, lle y rhoddodd dir ar gyfer Eglwys y Santes Fair ac adeiladu terasau o dai crefftwyr (Stryd Powell, Stryd Siôr a Stryd William) yn y 1860au. Yng nghornel dde-orllewinol y dref roedd hen dir comin Penmaesglas, a oedd yn eiddo i'r gorfforaeth ac a ddatblygwyd ar brydlesau.

## Y tu allan i'r Muriau: Patrymau Datblygu Newydd

Roedd y tir y tu allan i'r muriau yn dir comin yn bennaf a oedd yn eiddo i'r dref. Roedd yn dir corslyd ac ni chafodd ei ddatblygu am sawl canrif, er ei bod yn debyg bod safleoedd diwydiannol bach, a oedd yn hanfodol i gynnal economi'r dref, i'w cael yn yr ardal y tu allan i'r muriau gerllaw Pont Trefach ers amser maith. Yn y fan hon roedd melin — efallai ar safle a oedd wedi'i feddiannu ers diwedd y drydedd ganrif ar ddeg (er nad oes unrhyw gofnodion o felin cyn yr unfed ganrif ar bymtheg), ond fe'i dymchwelwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'i cyflenwid gan ffrwd a lifai, nes iddi gael ei llenwi ar ôl adeiladu'r rheilffordd ac yn ystod gwelliannau gan y cyngor, o Blascrug; oddi yno llifai i'r gogledd ochr yn ochr â'r hyn a elwir bellach yn Rhodfa Plascrug (lle mae wedi'i disodli gan ffos fach), cyn llifo ochr yn ochr â Ffordd bresennol Alexandra ac ar hyd llinell muriau'r dref islaw Dan Dre. Gerllaw'r felin roedd adeiladau diwydiannol eraill, gan gynnwys tanerdy. Yn y fan hon y sefydlwyd gwaith nwy'r dref yn 1838.

O'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, rheolwyd gwaith ehangu y tu allan i graidd y dref ganoloesol gan y gorfforaeth. Aeth rhagddo mewn sawl ymgyrch ar wahân, gyda phob un ohonynt yn meddu ar ei chymeriad ei hun. Mae llinell grom urddasol Rhodfa'r Môr yn llinellol i bob diben ond roedd yn ffurfio terfyn gogleddol grid cydlynol o strydoedd y naill ochr a'r llall i Rodfa'r Gogledd, a gynlluniwyd ac a ddatblygwyd yn raddol dros sawl degawd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Darparai'r cynllun gwreiddiol ar gyfer dwy brif stryd (sef Stryd Portland a Rhodfa'r Gogledd) gyda ffyrdd gwasanaeth rhyngddynt. Pan ailddatblygwyd yr ardal hon yn y 1860au a'r 870au, trowyd y ffyrdd gwasanaeth hyn eu hunain yn strydoedd preswyl (Ffordd Portland a Stryd Cambria). Roedd y datblygiadau maestrefol diweddarach, sef y Buarth, Ffordd y Gogledd a Ffordd Llanbadarn, hefyd wedi'u cynllunio'n dda mewn modd cydlynol. I'r de-ddwyrain o'r dref, roedd corstir isel wedi'i ddraenio



*Brig: Roedd Trefechan yn faestref gynnar lle roedd llawer o grefftau a diwydiannau wedi'u cronni, gyda'u hiardiau wedi'u cymysgu â bythynnod a rhai tai mwy o faint (Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth).*

*Dde: Mae'r hen fracty hwn gyda'i odyn yn un o'r nifer fach o adeiladau diwydiannol sydd wedi goroesi yn Nhrefechan (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



a'i gynllunio mewn cyfres o gaeau rheolaidd erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ni chafodd yr ardal hon ei datblygu rhyw lawer tan ddyfodiad y rheilffordd yn 1864.

Ar ôl hynny, cafodd datblygiadau eraill a oedd fwyaf addas i leoliad y tu allan i'r dref, megis y Smithfield a'r lladd-dy, tanerdy arall a ffowndri, eu sefydlu yma. Er bod yr ardal hon yn un ddiwydiannol i bob diben, roedd ffordd newydd y cyngor a adeiladwyd tua 1870, a arweiniai i'r Smithfield, yn llydan a 'margined with trees'.[48] Ymestynnwyd y llinell hon yn y pen draw fel Boulevard St Brieuc a Rhodfa Padarn.

## Trefechan: Maestref Gynnar

Yn y cyfamser, yn Nhrefechan, tyfodd maestref y tu allan i'r muriau, sy'n dyddio o bosibl o'r cyfnod canoloesol. Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd Trefechan yn cynnwys llawer o'r gweithgareddau diwydiannol a oedd yn cynnal yr harbwr a'r dref, gan gynnwys odynnau calch, iardiau coed a melinau llifo, iardiau adeiladu cychod a bracty. Yng nghanol yr holl ddiwydiant hwn, a'r rhesi o fythynnod a oedd yn gysylltiedig ag ef, roedd pâr o dai tref sylweddol, wedi'u cynllunio'n ffurfiol a adeiladwyd yn y ddeunawfed ganrif (sef The Green a The Lawn). Mae'n debyg bod y datblygiadau yma wedi digwydd yn fwy ar hap nag mewn mannau eraill, er bod llawer o'i hadeiladau diwydiannol yn sefyll mewn caeadleoedd sylweddol, a roddodd gymeriad unigryw i'r ardal. At hynny, roedd Trefechan yn eithaf llawn erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac roedd cyfres o gyrtiau y tu ôl i linell y stryd a thai o ansawdd gwael.[49] Mae hen ffotograffau yn cofnodi sawl bwthyn brodorol bach, ond cafodd yr olion hyn o'i hanes eu clirio mewn ymgyrchoedd adnewyddu olynol yn ystod yr ugeinfed ganrif. Roedd Trefechan yn ganolbwynt pwysig ar gyfer datblygiadau tai gan y cyngor.



*Arweiniodd dyfodiad y rheilffordd at rai datblygiadau masnachol i ffwrdd o ganol y dref ganoloesol, gan gynnwys rhai enghreifftiau o bensaernïaeth fasnachol rodresgar a ddefnyddiodd ddeunyddiau adeiladu wedi'u mewnforio (Hawlfraint y Goron: CBHC).*





*Chwith pellaf: Stryd y Bont oedd y canolbwynt ar gyfer tai o statws uchel yn y dref tan o leiaf ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Chwith: Datblygodd y Stryd Fawr yn galon fasnachol y dref o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen — rôl y mae'n dal i'w chwarae. Oherwydd pwysau masnachol collwyd llawer o'i hadeiladau hŷn yn ystod yr ugeinfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

## Topograffi a Strwythur Cymdeithasol

Roedd patrymau cymdeithasol cyfnewidiol yn gysylltiedig â'r topograffi ffisegol hwn. Roedd Stryd y Bont a Heol y Wig wedi ffurfio prif echel y dref ganoloesol ac roedd hon yn ardal breswyl ffasiynol tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan gafodd ei disodli o ran pwysigrwydd yn gyntaf gan Rodfa'r Môr a'r ardal o'i hamgylch ac yn ddiweddarach gan y maestrefi i'r dwyrain o'r dref. Cafwyd newid cyfochrog yn naearyddiaeth masnach. Y groesffordd yng nghanol yr hen dref oedd y brif ardal fasnachu yn wreiddiol a Stryd y Bont a Heol y Wig oedd y canolbwynt cychwynnol ar gyfer siopau parhaol (disgrifiwyd Heol y Wig, braidd yn ormodol, fel 'the Regent Street of Aberystwyth' yn 1874).[50] Fodd bynnag, ar ôl i'r dref ddechrau tyfu y tu allan i'r muriau ar hyd Rhodfa'r Gogledd, daeth y Stryd Fawr yn fan pwysicach ar gyfer masnach, ac o ganlyniad, roedd mwy o bwysau ar gyfer ei hailddatblygu, yn enwedig yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yn y cyfamser, y tu ôl i'r prif strydoedd, dechreuodd canol y dref lenwi â thai crefftwyr llai o faint, wrth i'r maestrefi newydd gael eu sefydlu, gyda thai sylweddol ar gyfer y dosbarthiadau cyfoethocach.

Y tu allan i'r muriau, datblygodd ardal glan y môr a'r grid o strydoedd ar y naill ochr a'r llall i Rodfa'r Gogledd gyda thai, yr oedd llawer ohonynt yn gwasanaethu rôl Aberystwyth fel cyrchfan i dwristiaid. Gyda dyfodiad y rheilffordd, roedd i Ffordd y Môr le mwy blaenllaw ym mywyd masnachol y dref fel y brif echel o'r orsaf reilffordd i'r môr — yn y fan hon roedd llawer o ddatblygiadau uchelgeisiol yn dyddio o ddechrau'r ugeinfed ganrif wedi'u crynhoi.

# Nodweddion Adeiladu

*Dde: Mae'n bosibl bod yr adeilad hwn yn dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg, sy'n golygu ei fod yn un o'r adeiladau cynharaf sydd wedi goroesi yn y dref. Pan gafodd ei restru yn 1987 roedd grisiau yn dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg i'w gweld o hyd ynddo. (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde pellaf: Mae tafarn y Nag's Head (brig) a Yr Hen Llew Du (gwaelod) yn perthyn i nifer fach o adeiladau yng nghanol y dref a godwyd, o bosibl, cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).*







*Dde: Mae'r ffaith bod yr adeiladau hyn ar y Stryd Fawr yn llai o faint yn awgrymu y gallent fod gryn dipyn yn gynharach na'u cymdogion (Hawlfraint y Goron: CBHC).*






## Cronoleg Datblygu

Er i'r dref gael ei sefydlu yn ystod y cyfnod canoloesol, mae ei stoc adeiladau yn golygu bod cymeriad Aberystwyth yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn bennaf. Fodd bynnag, ceir rhai adeiladau yn y dref, o'u hastudio'n fanylach, a allai fod yn gynharach na 1800. Roedd Stryd y Bont yn un o brif strydoedd y dref ganoloesol a pharhaodd i chwarae rôl gymdeithasol bwysig tan ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond wedyn daeth yn llai pwysig. Gellid bod wedi disgwyl i rai adeiladau cynnar oroesi yma ac mae'n bosibl bod gan Yr Hen Llew Du a'r bloc sy'n cynnwys tafarn y Nag's Head yn arbennig, darddiad cynnar. Mewn mannau eraill ar y strydoedd canoloesol, bu pwysau datblygu o tua 1800 ymlaen yn fwy dwys, ond codwyd rhifau 39–41 ar y Stryd Fawr cyn 1800 (ceir grisiau yn dyddio o ddechrau'r ddeunawfed ganrif yn rhif 39) a gall rhif 18 ar y Stryd Fawr fod yn enghraifft arall.



*Gwesty'r Angel, cyn iddo gael ei ailfodelu ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae'n enghraifft o'r arddulliau a thraddodiadau adeiladu a oedd yn gyffredin yn y dref ar un adeg (Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth).*





*Chwith pellaf: Y traddodiad Sioraidd boneddigaidd oedd arddull bensaernïol amlycaf Aberystwyth tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'i nodweddid gan gymesuredd, ffenestri codi a manylion rendr cymedrol (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Chwith: Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyfunwyd awydd am gerrig yn y golwg, ynghyd â brics a theils, hyd yn oed, wedi'u mewnforio, â mwy o ryddid o ran arddull, gan gyflwyno amrywiaeth mawr i'r stoc adeiladau trefol (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Ar ôl tua 1800, mae mwy o adeiladau wedi goroesi, er bod y dref mor ffyniannus ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel bod llawer o dai a adeiladwyd yn ystod cyfnod cyntaf o dwf newydd (tua 1800–40) naill ai wedi cael eu hailadeiladu'n gyfan gwbl neu eu hailfodelu'n llwyr yn ystod cyfnodau diweddarach (tua 1860–70 a 1895–1905). Mae tystiolaeth ffotograffig o arddull adeiladu brodorol nad yw wedi goroesi o gwbl ac mae enghreifftiau o adeiladau yn y traddodiad Sioraidd sy'n dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac nad ydynt wedi newid braidd o gwbl yn gymharol anghyffredin. Mae enghreifftiau o ailwampio'r traddodiad hwn yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg neu o waith ailadeiladu afieithus mewn arddulliau a deunyddiau newydd ar droad y ganrif yn llawer mwy cyffredin. Mae Aberystwyth hefyd yn arbennig o nodedig am ei maestrefi sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

# Mathau o Adeiladau

## Siopau a Banciau

Roedd siopau parhaol yn nodwedd o Aberystwyth o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg o leiaf ac mae enghreifftiau eithriadol o dda o ffryntiadau siopau cynnar wedi goroesi. Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys cyfansoddiad syml o ddrws a ffenestri bwaog bob ochr iddo, o fewn architraf â mowldiau clasurol cain. Rhoddodd cynllun mwy uchelgeisiol driniaeth bensaernïol i'r llawr isaf, gydag enghreifftiau megis y rhai yn rhifau 17–19 Heol y Wig a chornel Stryd y Bont/Stryd y Frenhines yn brin, hyd yn oed yng nghyd-destun Cymru. O ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd confensiynau ar gyfer cynllun ffryntiadau siopau yn fwy safonedig ac roeddent wedi'u nodweddu gan ffenestri mwy o faint (ar ôl cyflwyno gwydr plât) a ffasia bargodol mwy o faint (a oedd yn cynnwys cynfas weithiau), ond roedd cyfleoedd o hyd i gyflwyno cryn dipyn o amrywiaeth ym manylion y ffasia a'r bracedau ar y naill ben a'r llall ohono.



*Manylion ar ffryntiad siop ar gornel Heol y Wig a'r Porth Bach (Hawlfraint y Goron; CBHC).*




*Enghraifft wych o ffryntiad siop ar Stryd y Bont (Hawlfraint y Goron: CBHC).*






*Dde pellaf: Enghraifft wych o ffryntiad siop, â manylion clasurol, wedi'i lapio o amgylch cornel Stryd y Frenhines a Stryd y Bont (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde: Braced corbel wedi'i gerfio ar ffryntiad siop ar y Porth Bach (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Brig, canol a dde isaf: Mae gan Aberystwyth lawer o ffryntiadau siopau o ansawdd uchel megis y rhain (Hawlfraint y Goron: CBHC).*










*Chwith pellaf: Y Porth Bach — dim ond ffryntiadau bach a oedd gan siopau llai o faint (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Dim ond ffenestr fawr o fewn architraf syml a oedd gan siopau mwy cyffredin ar strydoedd llai pwysig: mae enghreifftiau wedi goroesi ar y Porth Bach. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg cyflwynwyd ffryntiadau mwy addurnedig lle roedd y ffasâd cyfan wedi'i drin fel cyfansoddiad pensaernïol mewn adeiladau a gafodd eu cynllunio, yn hytrach na'u haddasu, ar gyfer masnach (Siop Ddefnydd Dukes,










*Dde: Cynlluniwyd ar gyfer masnach (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Smiths). Yn y pen draw, arweiniodd y broses hon at fabwysiadu arddulliau unigryw ar gyfer rhai cwmnïau — mae enghraifft dda o adeilad yn arddull tŷ Burton i'w gweld o hyd yn Aberystwyth, er enghraifft.

Gellir olrhain datblygiad tebyg mewn banciau yn y dref: y cynharaf yw Bank House ar Stryd y Bont, sy'n enghraifft wych o breswylfa Sioraidd sy'n ymgorffori banc, ond sy'n edrych fel tŷ — dim ond y drysau pâr sy'n awgrymu ei swyddogaeth wirioneddol. Dywedir i'r banc gael ei sefydlu yn 1762, ond am mai yn 1806 y ceir y cyfeiriad cyntaf at sefydlu 'The Aberystwith and Cardiganshire Bank', mae'n ddigon posibl mai o'r adeg honno y mae'r adeilad yn dyddio.[51] Erbyn tua 1900, roedd banciau yn unffurf yn mabwysiadu ffurfiau adeiledig nodedig, gan gyflogi penseiri i'w cynllunio ac yn aml gan ddefnyddio deunyddiau adeiladu a fewnforiwyd.



*Dde pellaf: Banc cynnar a ymgorfforwyd mewn adeilad domestig ar Stryd y Bont (Hawlfraint y Goron: CBHC).*






*Banciau pwrpasol sy'n dyddio o ddechrau'r ugeinfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde a chwith isod: Yr Hen Llew Du (dde) a hen dafarn y Gogerddan Arms (isod) — roedd eu harddull Sioraidd domestig yn nodweddiadol o adeiladau gwestai cyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).*




*Dde pellaf: Mewn cyferbyniad, adeiladwyd Gwesty'r Queen's (1866) ar raddfa fawr mewn arddull bensaernïol Ffrengig hyderus (Hawlfraint y Goron: CBHC).*





## Gwestai, Tafarndai a Thai Llety

I ddechrau roedd llety wedi'i gyfyngu i dafarndai yng nghanol y dref. Y Llew, y Gogerddan Arms a'r Talbot oedd y rhai mwyaf nodedig yn eu plith (er bod llawer o dafarndai eraill yn y dref), cyn i'r gwesty glan môr gael ei ddatblygu. Y cynharaf o'r rhain oedd Gwesty'r Belle Vue, er ei fod ond yn cynnwys 'three houses thrown into one'[52] i ddechrau. Cofnodwyd y Gogerddan Arms gyntaf yn 1743 ond, fel y lleill, cafodd ei ymestyn a'i ailfodelu er mwyn ateb y galw cynyddol.[53] Tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd gwestai yn dal i fod mewn traddodiad Sioraidd domestig, wedi'u dynodi'n bennaf gan eu maint. Roedd datblygiadau diweddarach yn llawer mwy rhodresgar a'r enwocaf o'r rhain oedd hen westy'r Castle, a adeiladwyd o amgylch Castle House ar raddfa enfawr. Roedd Gwesty'r Queen's, a gychwynnodd y cyfnod olaf o adeiladu ar hyd Rhodfa'r Môr yn 1864, bron yr un mor drawiadol.

Nes i'r rheilffordd wir newid arferion teithio, roedd stablau yn ychwanegiad pwysig i westy llwyddiannus ac mae rhai wedi goroesi, o leiaf yn rhannol, yng ngwesty'r Belle Vue a gwesty'r Queen's. Mewn proses gyfochrog, datblygodd y tafarn llai o faint hefyd o adeilad domestig bach i rywbeth mwy rhodresgar. Ceir sawl enghraifft o'r tafarn pwrpasol sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Aberystwyth (er enghraifft, Gwesty'r Cambrian, Gwesty'r Coopers a Gwesty'r Castle, sef yr enghraifft orau yn ôl pob tebyg, ar waelod Stryd y Tollty).

Arweiniodd yr angen am lety penodol at ddatblygu'r tŷ llety glan môr; roedd y rhain yn adeiladau uchel fel arfer a chanddynt ffenestri bae a gynigiai olygfa o'r môr. Daeth y ffenestr bae yn nodwedd bwysig a fabwysiadwyd yn eang hyd yn oed pan nad oedd unrhyw olygfa; er mwyn ymgorffori ffenestri bae, lle roedd adeiladau yn agor yn uniongyrchol oddi ar y palmant, roedd angen defnyddio orielau, ar lefel y llawr cyntaf a hefyd weithiau ar y llawr daear.

Mae datblygiad Rhodfa'r Môr yn rhychwantu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gyfan ac mae'n cynnwys llawer o ddehongliadau o'r math pwysig hwn o adeilad glan môr, ond ceir llawer o enghreifftiau eraill ar Rodfa'r Gogledd a Stryd Portland, er enghraifft.







*Mabwysiadwyd arddulliau unigol nodedig hefyd ar gyfer tafarndai o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Yn fuan iawn daeth y ffenestr fwaog neu'r ffenestr bae yn un o nodweddion adeiladau yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Aberystwyth — gyda neu heb olygfa o'r môr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



















*Tai llety glan môr nodweddiadol ar hyd Rhodfa'r Môr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Amrywiadau ar yr arddull Sioraidd ffurfiol hon a ddefnyddiwyd yn bennaf mewn adeiladau domestig yn Aberystwyth am y rhan fwyaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

## Arddulliau Adeiladu Domestig

Mae gan Aberystwyth bensaernïaeth ddomestig o'r radd flaenaf. Daeth mathau ac arddulliau o adeiladau trefol i'r amlwg, gan ddisodli traddodiadau adeiladu brodorol a oedd yn dal i gael eu defnyddio mewn rhai adeiladau yn dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel arfer roedd yr adeiladau brodorol hyn yn hir ac yn gymharol isel ac fe'u nodweddid gan y defnydd o wyngalch dros gerrig llanw. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, codwyd adeiladau mwyfwy uchel a disodlwyd gwyngalch gan rendr llyfn. Disodlwyd y rhan fwyaf o'r adeiladau brodorol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg neu ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae'r rhai sydd wedi goroesi oll wedi'u hailorchuddio â rendr a dim ond eu maint sy'n dangos mai adeiladau brodorol ydynt. Ceir rhai enghreifftiau ar y Stryd Uchel a Stryd yr Efail, yn ogystal â'r nifer fach o adeiladau brodorol a nodwyd yn gynharach sydd wedi goroesi ar Stryd y Bont a'r Stryd Fawr ac sy'n dyddio o bosibl o'r ddeunawfed ganrif.

Roedd datblygiad cynnar arddull Sioraidd soffistigedig, a fabwysiadwyd gyntaf ar gyfer y tai bonedd mwy o faint yn dyddio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac a ddefnyddiwyd wedyn ar gyfer adeiladau llai o faint, yn arwydd o ffyniant ac uchelgais. Llwyddodd yr arddull i oroesi'n rhyfeddol o dda. Rhoddwyd gwahanol addurniadau iddi ond nis heriwyd mewn gwirionedd tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er gwaethaf ymdrechion i gyflwyno'r adfywiad gothig i'r dref. Ar ôl tua 1900, bu'r dewis ehangach o ddeunyddiau ac arddulliau yn fodd i gyflwyno mwy o amrywiaeth yn y maestrefi cyfoethog.



*Cyflwynwyd yr arddull gothig i'r dref ar ôl y 1860au, fel y gwelir yn y teras hwn ar Forfa Mawr, ond roedd yn gymharol brin (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Dde: Y Porth Bach — Ar y strydoedd trefol hŷn, nodweddir y patrwm adeiladau gan derasau a ffurfiwyd o adeiladau unigol neu resi bach o dai (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Dde pellaf: Rhodfa'r Gogledd — Roedd rhesi hwy o dai teras yn nodweddiadol o'r strydoedd newydd a grëwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



O fewn terfynau'r dref ganoloesol, yr uned ddatblygu nodweddiadol oedd y llain unigol; mae'r gwaith a wnaed ar wahanol adegau i'w datblygu a'u hailddatblygu wedi sicrhau bod cryn dipyn o amrywiaeth gweledol yn y treflun. Cyfunwyd rhai lleiniau a oedd o dan un berchenogaeth gan ei gwneud yn bosibl adeiladu terasau byr (ceir enghreifftiau ar y Porth Bach a Stryd y Bont). Ar y strydoedd mwy diweddar, roedd yn bosibl adeiladu terasau hwy, yn enwedig lle roedd y tir o dan un berchenogaeth a chafodd ei ddatblygu mewn un ymgyrch (fel y digwyddodd, er enghraifft, ar y tir a oedd yn eiddo i'r teulu Powell rhwng Stryd y Frenhines a Dan Dre, ac ar y Stryd Newydd). Lle y cafodd prydlesau adeiladau eu defnyddio ar dir y dref, ymddengys fod y gorfforaeth wedi gosod paramedrau cyffredinol ar gyfer datblygu, gan bennu llinell ffryntiad ac, yn ôl pob tebyg, uchder cyffredinol yr adeiladau. Roedd maint y brydles a dyddiad y datblygiad yn amrywio ac adlewyrchir hyn mewn amrywiadau ar hyd llinellau stryd Rhodfa'r Gogledd a Stryd Portland, er enghraifft.

Er ei bod yn bosibl mai gwaith sawl adeiladwr yw pob un o'r datblygiadau hyn, dilynwyd confensiynau arddull bras lle roedd rhywfaint o le ar gyfer amrywiadau ar thema gyffredin. Atgyfnerthwyd cydymffurfiaeth mewn datblygiadau sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ddefnyddiodd y cyngor y broses o adnewyddu prydlesau i osod safonau adeiladau penodol, gan gynnwys: codi uchder toeau, rendro waliau cerrig a gosod ffenestri bae ar ogwydd yn lle ffenestri crwm.[54]

Erbyn diwedd y ganrif, mae rôl penseiri lleol o ran cynllunio a datblygu'r maestrefi wedi'i chofnodi yng nghynlluniau rheoli adeiladau'r fwrdeistref.[55]

*Ffenestri bwaog yn dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n cyferbynnu â'r ffenestri bae ar ogwydd a osodwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac a oedd yn cael eu ffafrio gan gyngor y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).*





*Adeiladau cornel cydbwysol ar Ffordd y Môr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*





*Tai mawr tra unigryw ar Ffordd y Gogledd (dde) a Ffordd Llanbadarn (dde pellaf) (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Os mai'r tŷ teras oedd yr uned gynllunio, ymddengys fod confensiynau a oedd yn rheoli'r hyn a ddylai amrywio a'r hyn na ddylai amrywio o fewn pob rhes o dai teras. Roedd rhythm cyffredinol y ffasâd, y math o ffenestri, eu maint a'r bwlch rhyngddynt (gan gynnwys ffenestri dormer os cawsant eu defnyddio) wedi'u safoni ar y cyfan. Gallai gorffeniad ffasâd hefyd gael ei rannu ar draws rhes o dai, ond ni ddigwyddodd hynny bob amser — er enghraifft, ceir rhes o dai ar Stryd Cambria sy'n cynnwys un tŷ wedi'i orffen â rendr addurnol a sawl tŷ wedi'u gorffen â terracotta a gro chwipio.

Mae'n amlwg bod confensiynau cryf ar waith wrth adeiladu'r dref, hyd yn oed lle y datblygwyd lleiniau unigol gan bobl wahanol neu ar adegau gwahanol. Tueddai uchderau lloriau a lled ffenestri bae aros o fewn paramedrau eithaf tynn, sy'n rhoi harmoni cyfforddus i'r strydlun.

Mae Ffordd y Môr yn enghraifft dda o hyn lle mae cynlluniau unigol adeiladau cornel mewn gwirionedd wedi'u cydbwyso'n ofalus â'r rhifau sydd gyferbyn â hwy.

Mae'r datblygiadau maestrefol sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn nodedig am eu harddulliau, eu deunyddiau a'u cynlluniau amrywiol. Datblygwyd Ffordd y Gogledd, Ffordd Llanbadarn a'r strydoedd gerllaw gyda thai sylweddol ar gyfer poblogaeth gyfoethog — filâu ar wahân neu filâu pâr â gerddi sylweddol fel arfer. Roedd y Buarth wedi'i ddatblygu'n fwy tynn gyda thai teras o wahanol faint y nodwyd eu hierarchaeth gan wahanol raddau o gyfoethogi pensaernïol.





*Brig chwith a dde a chwith canol: Amrywiaeth maestrefol o ran maint ac arddull (Hawlfraint y Goron: CBHC).*





*Roedd addurniadau yn bwysig i dai maestrefol — i'r adeiladau eu hunain ac i'w ffiniau. Mae'n debyg i fanylion o waith haearn gael eu gwneud yn lleol (Hawlfraint y Goron: CBHC).*





Ym mhob un o'r ardaloedd hyn mae addurniadau yn gyffredin ac mae'r defnydd o waith haearn pensaernïol yn arbennig o drawiadol, boed hynny ar y tai eu hunain neu yn eu ffiniau. Mae'n debyg mai cynnyrch ffowndrïau lleol oedd yr haearn hwn a cheir amrywiaeth cyfoethog o batrymau ym mhob rhan o'r dref.

Fel arfer, cyfunwyd rheiliau haearn â waliau terfyn isel, ond yn union fel y ceir amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn y tai eu hunain, ceir mathau amrywiol o ffiniau; defnyddiwyd amrywiaeth o gerrig nadd a cherrig patrymog ac yn aml fe'u cyfunwyd â brics neu terracotta mewn amrywiaeth o liwiau. Ceir hefyd rai enghreifftiau prin lle mae'r cerrig garw heb eu gorffen, sy'n creu effaith bictiwrésg, wledig. Mae'r ffiniau amrywiol hyn yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad ardaloedd maestrefol.



*Waliau terfyn nodedig ar y Buarth (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae eglwys y plwyf y Drindod Sanctaidd yn ffurfio angorfa bensaernïol i'r Buarth (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

## Eglwysi a Chapeli


Mae adeiladau crefyddol yn rhoi rhyw fesur o fywyd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd y dref yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ni ddaeth Aberystwyth yn blwyf yn ei rhinwedd ei hun tan 1861. Tan hynny roedd wedi bod yn rhan o blwyf Llanbadarn Fawr. Dinistriwyd capel bach ar y lan ogleddol, gerllaw'r castell, gan y môr ac fe'i disodlwyd yn 1787 gan eglwys gyntaf Sant Mihangel ym mhen rhan uchaf y Stryd Fawr. Hanes byrhoedlog oedd i'r eglwys hon ac fe'i disodlwyd yn 1836 gan eglwys fwy o faint ar safle newydd ar hen dir comin y dref. Mae rhan fach o'r adeilad hwn wedi goroesi y tu ôl i'r eglwys bresennol sy'n llawer mwy o faint, a adeiladwyd yn 1890 ar dir a roddwyd gan y teulu Powell o Nanteos yn Laura Gardens. Yn y cyfamser, roedd y teulu Powell hefyd wedi rhoi tir yn 1866 ar gyfer eglwys Gymraeg y Santes Fair, sef canolbwynt eu datblygiad tai i'r dwyrain o Stryd y Bont. Wedyn, wrth i Aberystwyth ehangu tua'r dwyrain, darparwyd eglwys newydd (y Drindod Sanctaidd) yn 1887 ar droed y Buarth, cyn i'r tai gael eu datblygu yma.[56]

Mae'r capeli Anghydffurfiol cyntaf a gofnodwyd yn dyddio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif, pan adeiladwyd capel Methodistaidd Calfinaidd (Tabernacl) gyntaf ar dir Nanteos y tu ôl i Dan Dre a sefydlwyd eglwys y Bedyddwyr yn 1797. Hefyd, yr olaf oedd yr adeilad cyntaf a ganiatawyd y tu allan i furiau'r dref — rhagflaenydd Capel y Bedyddwyr Cymraeg Bethel ar Stryd-y-Popty. Dilynodd capeli eraill ar Stryd y Frenhines (Wesleaidd) a Stryd y Bont (Annibynnol), ond disodlwyd y capeli cynnar hyn (sawl gwaith weithiau) yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[57] Sefydlwyd capeli newydd hefyd yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn rhannol er mwyn darparu ar gyfer y nifer fawr o bobl, Saeson yn bennaf, a ddaeth i fyw yn y dref glan môr. Felly, adeiladwyd capel y Bedyddwyr Saesneg ar Faes Alfred yn 1869–70, eglwys Annibynnol Saesneg ar ran isaf Stryd Portland yn 1865–66 ac eglwys Bresbyteraidd Saesneg ar Stryd y Baddon yn 1871–72. Gwnaeth pob un o'r adeiladau hyn ddatganiadau pensaernïol nodedig, oherwydd eu maint yn ogystal â'u dewis arddulliau.



*Capel yr Annibynwyr Cymraeg Seion, Stryd-y-Popty (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Capel y Bedyddwyr Cymraeg Bethel, Stryd y Popty (Hawlfraint y Goron: CBHC).*





*Llwydgraig yn y golwg islaw'r castell (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

# Arddull a Manylion Adeiladu

## Waliau

Roedd y bryniau a'r clogwyni gerllaw'r dref yn ffynhonnell uniongyrchol o gerrig adeiladu a gloddiwyd ar gyfer y castell ac efallai hefyd ar gyfer adeiladau domestig cynnar (nid oes unrhyw dystiolaeth sydd wedi goroesi o draddodiad adeiladu â phren yn yr ardal). Tan ddyfodiad y rheilffordd, roedd y garreg leol hon i'w gweld ym mhobman yn y dref a pharhaodd i gael ei defnyddio ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif; defnyddiodd llawer o dai â wyneb o frics gerrig ar gyfer y waliau cefn ac ochr llai amlwg. Roedd sawl chwarel sylweddol ar Graig-glais ac o amgylch Penglais, yn ogystal â chwareli llai o faint (a chynharach o bosibl) ar y Buarth. Ceir y garreg leol mewn haenau trwchus a thenau bob yn ail o gerrig adeiladu caled da (llwydgraig), rhwng haenau o siâl o ansawdd gwaeth a oedd yn addas i'w ddefnyddio fel deunydd mewnlenwi. Gallai adeiladwyr ddefnyddio beth bynnag a oedd ar gael, gan gymysgu cerrig o wahanol haenau, neu gallent geisio dewis cerrig o'r haenau mwy trwchus yn unig. Darparai'r olaf flociau rheolaidd ar gyfer gwaith patrymog, tra bod y cyntaf ym mhobman at orffeniad mwy afreolaidd.

*Roedd cerrig yn y golwg yn ffasiynol am gyfnod byr ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).*











*Dde pellaf: Mae cerrig yn y golwg arbennig o drawiadol i'w gweld yng Ngwesty'r Queen's lle y defnyddiwyd samplau o fwynau lleol mewn paneli addurnol (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Mabwysiadwyd gwahanol dechnegau ar gyfer gorffen y gwaith maen. Mae'n amlwg o ddisgrifiadau cyfoes i gerrig gael eu gadael yn y golwg weithiau, lle roedd cerrig o ansawdd gwell wedi'u defnyddio yn ôl pob tebyg: 'the stone used in building, being of the dark blue slate stone of the county, would give a sombre hue to the general appearance of the town, were not this in some degree obviated by pointing the interstices between each layer of the building with plaister, or else coating the whole of the exterior with stucco-work or cement. Favourable specimens of the former include the church and North Parade,






*Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd cerrig yn y golwg yn cael eu defnyddio eto, yn aml ar y cyd â deunyddiau eraill ac â thriniaeth fwy amlwg (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

while on Marine Terrace the latter mode has been universally adopted'.[58] Mae'n bosibl bod y dechneg bwyntio a ddisgrifir yma yn dyddio o gyfnod diweddarach a'i bod yn deillio o'r defnydd o waith pwyntio penodol i wneud i'r cerrig edrych fel blociau o gerrig nadd. Ond yn fuan iawn, daeth rendr yn ffasiynol (gan ddisodli gwyngalch yn ogystal â cherrig yn y golwg). Felly, erbyn 1864 'the practice is now becoming universal'.[59] Mae rhai enghreifftiau o gerrig yn y golwg sy'n dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi goroesi, ond erbyn hyn prin iawn yw'r adeiladau sydd wedi'u gorffen â'r gwyngalch mwy brodorol, er bod adeilad y farchnad sy'n dyddio o 1824 yn un enghraifft.

Er hynny, erbyn diwedd y 1860au, roedd ffasiwn unwaith eto yn newid o blaid gwaith maen yn y golwg ac roedd ei liw tywyll cynhenid bellach yn cael ei ddathlu er nad oedd bob amser yn cael ei werthfawrogi. Gan ymateb i gerrig o wahanol faint, daeth gwaith maen llanw neu 'jumper-work' i'r amlwg, gan fanteisio weithiau ar amrywiadau mewn lliw i greu effaith amryliw. Roedd arddulliau trin cerrig hefyd yn amrywio, o'r driniaeth leiaf roedd ei hangen i gael wyneb gwastad i orffeniad wyneb o graig, neu wyneb offeredig.

Yn ei hanfod mae Aberystwyth yn dref a adeiladwyd â cherrig. Fodd bynnag, nodweddir ei chymeriad pensaernïol yn bennaf gan y defnydd o rendr, yr oedd geirfa fwyfwy cymhleth a soffistigedig yn datblygu ar ei gyfer yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. I ddechrau, benthyciwyd arddulliau o waith rendr o iaith gwaith maen: diffiniai gwaith sgrafellu flociau, a oedd yn adlewyrchiad egwan o gerrig nadd neu, ar gyfer gorffeniad mwy mawreddog, gellid gwladeiddio'r llawr isaf (fel ym Maes Lowri, er enghraifft). Cafwyd pilastrau a chonglfeini ongl





*Dde: Conglfeini ac architrafau wedi'u mowldio ynghyd â rendr llyfn uwchben ffryntiad siop, y Porth Bach (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde pellaf: Conglfeini wedi'u pwysleisio a llawr isaf wedi'i wladeiddio ynghyd â rendr sgraffellog uwch ei ben, Maes Mihangel (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Amrywiaeth o orffeniadau rendr anghonfensiynol uwchben y siopau ar Sgwâr Owain Glyndŵr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*







*Dde: Rendr a ddefnyddiwyd i wella siop yn arddull palazzo ar Ffordd y Môr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde pellaf: Gwaith rendro croyw ar Forfa Mawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*











*Rendr addurnol ar Rodfa'r Gogledd (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

hefyd yn y pen draw o draddodiad gwaith maen, yn ogystal â gorffeniadau addurnol megis llinellau troellog. Fodd bynnag, wrth i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fynd rhagddi, cafodd yr elfennau hyn eu cywreinio fwyfwy a'u trin yn fwy rhydd — roedd conglfeini, pilastrau, architrafau a ffedogau yn wynebau y gellid gosod addurniadau arnynt ac mae gan Aberystwyth rai enghreifftiau hynod, darluniadol bron, gan gynnwys rhai sy'n ymgorffori deunyddiau eraill megis cerrig crynion o draethau. Roedd cyfle i gyflwyno cryn dipyn o amrywiaeth hyd yn oed mewn triniaethau confensiynol — gallai gwaith gwladeiddio efelychu blociau o waith maen siamffrog neu ddisgrifio haenau neu fandiau parhaus yn unig. Gellid ei ddefnyddio ar lefel y llawr cyntaf (yn enwedig lle





*Y defnydd o liw i bwysleisio manylion pensaernïol (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

roedd ffryntiad siop parhaus ar y llawr daear), neu hyn yn oed, fel eithriad, dros y ffasâd cyfan. At hynny, mae rhai enghreifftiau ecsentrig lle y'i ceir bob yn ail â phaneli fertigol o rendr llyfn. Mae gwaith rendro yn cynnig ei hun i liw. Mae'n bosibl bod gwaith rendro cynnar yn eithaf unffurf ac mae'n debyg bod y palet presennol yn gymharol fodern ond mae lliw bellach yn rhan bwysig o gymeriad y dref. Gellir ei ddefnyddio i bwysleisio manylion pensaernïol ar eiddo unigol; gall hefyd wella neu atgyfnerthu undod cyfansoddiad o fewn unedau datblygu unigol. Gall lliw fod yn un o'r nodweddion sy'n amrywio o fewn rhes, er bod risg y bydd gormod o amrywiaeth yn cuddio cydlyniad y cynllun gwreiddiol.

Parhaodd gwaith rendro i fod yn bwysig drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ond tanseiliwyd ei goruchafiaeth o'r 1860au ymlaen yn rhannol gan y ffasiwn newydd (a ysbrydolwyd gan yr adfywiad gothig) am ddeunyddiau yn y golwg, ac yn rhannol gan y ffaith ei bod yn hawdd cludo gwahanol ddeunyddiau i Aberystwyth ar y rheilffordd. Daeth cerrig rhywiog ar gyfer addurno o Grinshill, Cefn Mawr a Chaerfaddon ac fe'u defnyddiwyd yn helaeth, er enghraifft, ar westy'r Queen's, yr Hen Goleg a'r datblygiadau ar Stryd y Frenhines. Roedd y deunyddiau hyn a fewnforiwyd yn fwy tebygol o gael eu defnyddio ar ddatblygiadau adeiladu uchelgeisiol fel y rhain, yn ogystal ag ar gyfer capeli ac adeiladau masnachol mawr megis banciau. Defnyddiodd y cyngor gerrig a fewnforiwyd o'i chwarel ei hun yn Ystrad Meurig hefyd ar gyfer rhai o'i ddatblygiadau, megis Pont Trefechan a'r tai ar Stryd Cae Glas.

Yn ogystal ag amrywiaeth ehangach o fathau o gerrig, roedd y rheilffordd hefyd wedi'i gwneud yn bosibl mewnforio brics a terracotta, a ddefnyddiwyd yn helaeth yn enwedig yn ystod y cyfnod rhwng 1895 a 1905 ar gyfer adeiladau domestig a masnachol. Defnyddiwyd brics o ansawdd high uwch fel arwynebau neu ar gyfer addurniadau ar adeiladau cerrig. Brics coch oedd y rhai mwyaf cyffredin, ond defnyddiwyd brics glas a melyn hefyd ar gyfer addurniadau ac er mwyn creu effaith amryliw. Defnyddiwyd teils clai weithiau fel cladin.

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac i mewn i'r ugeinfed ganrif, roedd yr holl ddeunyddiau hyn yn rhan o'r stoc gyffredin, ac fe'u defnyddiwyd mewn amrywiaeth dryslyd o gyfuniadau. Erbyn yr adeg hon, hefyd, roedd plastr garw yn dechrau ymddangos, wedi'i gyfuno fel arfer â gwaith brics.

## Toeon

Llechi yw'r deunydd toi mwyaf cyffredin o bell ffordd yn Aberystwyth, gyda dim ond rhai enghreifftiau prin o deils clai ar rai adeiladau sy'n dyddio o ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae simneiau yn nodwedd amlwg ar y treflun ac maent yn aml yn rhoi cliw i ni o'r cyfnod adeiladu. Mae simneiau cerrig yn fwy tebygol o awgrymu dyddiad adeiladu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae brics yn fwy nodweddiadol o gyfnodau adeiladu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae potiau simnai hefyd yn nodweddion cyffredin sydd wedi goroesi o'r cyfnod diweddarach hwn ac mae amrywiaeth trawiadol o fathau i'w gweld ym mhob rhan o'r dref. Mae simneiau yn



*Mae'r patrwm rheolaidd o ffenestri dormer yn nodwedd bwysig ar yr adeilad hwn ar stryd Rodfa'r Môr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae simneiau yn nodwedd bwysig ar doeau (Hawlfraint y Goron: Cadw).*



*Uchod: Manylion addurniadol ar ffenestr ddormer, Ffordd Llanbadarn (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde: Ffenestri dormer cytbwys ar bâr o dai ar hyd Morfa Mawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde pellaf: Mae rhythm ffenestri bae a ffenestri dormer yn elfen bwysig o gymeriad Stryd-y-Tollty (Hawlfraint y Goron: CBHC).*









*Drysau gwych ar Rodfa'r Gogledd (chwith) a'r Porth Bach (chwith pellaf) (Hawlfraint y Goron: CBHC).*





*Chwith: Fframiau drysau a drysau ar Stryd Portland (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

elfen bwysig mewn rhesi o dai teras ac maent yn cyfrannu at rythm fertigol cryf.

Mae manylion bondo a ffenestri dormer yn elfennau pwysig eraill o'r treflun. Mae bondo dwfn yn nodwedd gryf o'r rhan fwyaf o ffasadau ac fe'u hategir yn aml â bracedi addurnol. Uwch ei ben, roedd ffenestri dormer naill ai wedi'u cynllunio mewn rhesi o dai teras neu fe'u hepgorwyd yn fwriadol. Fel rhan annatod o'r cynllun lle y'i ceir, mae gwahanol arddulliau o ffenestr ddormer yn gwahaniaethu rhwng gwahanol resi, er bod yr undod gwreiddiol a ddarparai hyn weithiau wedi'i erydu gan waith addasu tameidiog.

## Gwaith Saer

Mae ansawdd y manylion a geir ar stoc adeiladau Aberystwyth llawn cystal ag adeiladwaith llawer ohonynt sydd o ansawdd uchel. Cyfrannodd yr arddull Sioraidd drefol, a oedd mor nodweddiadol o waith adeiladu yng nghanol y dref am ran helaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, rai manylion clasurol gwych — yn arbennig mewn drysau a fframiau drysau — a ffenestri codi ysblennydd. O ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, gyda'r amrywiaeth ehangach o arddulliau a deunyddiau daeth amrywiaeth cyfochrog o fanylion. Gwelir hyn ar ei orau yn y maestrefi lle y ceir llawer o amrywiadau ar thema'r ffenestr godi a rhai enghreifftiau o waith saer o ansawdd uchel.



*Uchod a chwith isod: Manylion gwreiddiol sydd i'w gweld o hyd mewn tai maestrefol (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde pellaf: Portsh anarferol ar Ffordd Llanbadarn (Hawlfraint y Goron: CBHC).*





# Ardaloedd â Nodweddion



## 1. Yr Hen Dref

### i. Y Stryd Fawr gyda'r Porth Bach a Stryd y Frenhines, Stryd y Bont a Heol y Wig

#### Cefndir Hanesyddol

Y Stryd Fawr (gan gynnwys ei pharhad i'r gorllewin o dwr y cloc) ac echel Stryd y Bont/Heol y Wig oedd dwy brif stryd y dref ganoloesol, a sefydlwyd yn 1277 ac a gynlluniwyd gyda lleiniau neu fwrdeisi bryd hynny. Ar waelod y Stryd Fawr a Stryd y Bont roedd y ddau brif borth i mewn i'r dref gaerog ac roedd porth llai pwysig wrth waelod y Porth Bach. Dilynai'r muriau eu hunain, fwy neu lai, linell bresennol Tan y Cae, Stryd-y-Popty, Stryd y Ffynnon Haearn a Dan Dre. I'r gogledd-orllewin, rhedai'r mur y tu ôl i Dai Crynfryn ac o amgylch hen Westy'r Castle. Ffurfiai Stryd y Frenhines lôn gefn, gan gwblhau'r grid o fewn y muriau.



*Uchod: Aberystwyth o'r Gogledd-ddwyrain, 1835 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*

*Chwith: Roedd Stryd y Bont yn un o brif strydoedd y dref ganoloesol (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Roedd marchnad yn yr ardal wrth gyffordd y prif strydoedd hyn a oedd yn nodedig am nad oedd yn cynnwys unrhyw leiniau bwrdeisi (yr ardal sydd wedi'i ffinio gan ran uchaf y Stryd Fawr, Lôn Rhosmari a Stryd y Bont); gyda stryd eilradd neu lôn gefn ar yr ochr ddeheuol i'r Stryd Fawr (Stryd y Frenhines yn ddiweddarach, efallai gyda'i pharhad, sef Lôn Rhosmari).

Mae'n debyg nad oedd rhannau o Heol y Wig erioed wedi cael eu datblygu cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac roedd tir agored ar y naill ochr a'r llall iddi a'r tu ôl i'r eiddo ar y naill ochr a'r llall i Stryd y Bont, nas datblygwyd cyn diwedd y ddeunawfed ganrif. Safai tai ar ran o'r tir hwn ac roedd hefyd yn gallu cynnwys adeilad mor fawr â Gwesty'r Castle (yr Hen Goleg yn ddiweddarach). Cynlluniwyd y prif strydoedd gyda bwrdeisi pan sefydlwyd y dref, sydd wedi goroesi'n rhyfeddol mewn rhai mannau, er iddynt gael eu difrodi gan faint y gwaith datblygu y tu ôl i'r ffryntiadau ar ochr ddeheuol y Stryd Fawr. Mae'r strwythur lleiniau hwn yn elfen bwysig o'r dref ganoloesol.

Wrth i'r dref ehangu i'r dwyrain a'r gogledd, symudodd gorweddiad y dref i ffwrdd o Stryd y Bont. Cadwodd y stryd hon a'r strydoedd ar y naill ochr a'r llall iddi eu cymeriad mwy preswyl tra daeth Heol y Wig ac yn arbennig y Stryd Fawr yn ganolbwynt i ddatblygiadau masnachol.

## Potensial Archeolegol

Darganfuwyd olion yr hyn y tybir ei fod yn fur y dref tra'n gwneud gwaith ar biblinellau yn 1974 a rhedai o dan rif 3 y Stryd Fawr ac oddi yno i'r gogledd-orllewin tua safle porth y dwyrain. Mae cryn dipyn o linell dybiedig y mur yn rhedeg o dan ffyrdd a thrwy ffiniau cefn eiddo, a all olygu bod y wal wedi goroesi mewn cyflwr gweddol dda o dan ddaear. Mae'n debyg bod ffos lydan o flaen y mur a allai fod yn ffynhonnell dda o ddeunydd o domenni canoloesol a dyddodion llawn dŵr. Mae'n bosibl bod Stryd-y-Popty yn arbennig wedi datblygu ar hyd llinell y ffos hon yr adeiladwyd drosti ar raddfa fwy mewn mannau eraill yn ôl pob tebyg. At hynny, gallai safleoedd pyrth y dref hefyd ddarparu olion strwythurol sylweddol, er ei bod yn bosibl i'r cerrig gael eu dwyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer gwaith datblygu diweddarach.

Ychydig a wyddom o hyd am y gweithgareddau a gynhaliwyd yn y dref ganoloesol a lleoliadau llawer o'r prif adeiladau a phrin yw'r gwaith archeolegol a wnaed yma. Byddai tai pobl o bron pob rhan o gymdeithas, eiddo masnachol, safleoedd diwydiannol a llawer o adeiladau trefol wedi bod ar y bwrdeisi. Gallai defnydd tir mor ddwys â hyn dros gyfnod hir o amser ddarparu dilyniant cymhleth o olion archeolegol. Mae'r wybodaeth sydd gennym yn awgrymu bod unrhyw olion yn debygol o fod yn rhai sydd wedi goroesi ar wahân i'w gilydd ac y bydd yn anodd eu dehongli. Efallai y bydd ardaloedd iardiau cefn yn rhoi tystiolaeth well o'r defnydd blaenorol o dir.

## Nodweddion Adeiladu

Am mai dyma galon y dref ganoloesol, nodweddir yr ardal gan batrymau datblygu dwys ac mae ganddi stoc adeiladau amrywiol iawn.

Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau ar y prif strydoedd yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a dim ond nifer fach sy'n dyddio, o bosibl, o gyfnod cynharach. Ceir pocedi o waith ailddatblygu sy'n dyddio o'r ugeinfed ganrif, yn enwedig ar y Stryd Fawr. Er hynny, mae'r patrwm datblygu ar y ffryntiadau yn dal i adlewyrchu'r patrwm gwreiddiol o dirddaliadaeth a sefydlwyd ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Yn nodweddiadol, roedd gan bob llain hanes annibynnol, a arweiniodd yn y pen draw at y cymysgedd o wahanol fathau o adeiladau o wahanol oedran sydd i'w weld heddiw. Prin iawn yw'r enghreifftiau o leiniau sydd wedi'u cyfuno o ganlyniad i gylch adeiladu ac ailadeiladu. Felly, er ei bod yn bosibl nad yw adeiladau unigol yn hen iawn, maent yn rhoi cliw hanfodol i hanes blaenorol tirddaliadaeth yn yr ardal hon, sy'n ymestyn yn ôl i ddyddiau cynharaf y dref.

Dengys y cymysgedd o adeiladau yng nghanol y dref yr agweddau allweddol ar ddatblygiad Aberystwyth ar ôl y ddeunawfed ganrif. Mae gan yr adeiladau a feddiannir gan Clinton's Cards a Santander ar y Stryd Fawr a'r Llew a thafarn y Nag's Head ar Stryd y Bont ddau lawr a tho ar oledd serth sy'n awgrymu eu bod yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif. Felly, mae'n bosibl eu bod ymhlith yr adeiladau cynharaf yn y dref. Tai tref mawr a geir yn bennaf ar Stryd y Bont ac ar bob un o'r prif strydoedd mae adeiladau masnachol yn olrhain dilyniant o waith datblygu o flynyddoedd cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adlewyrchir yr hwb i ffyniant y dref ar ôl dyfodiad y rheilffordd gan y cynnydd mewn gweithgarwch adeiladu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a welir, er enghraifft, ar Stryd y Ffynnon Haearn, lle y cafodd sawl adeilad brodorol sy'n dyddio o ddechrau'r ddeunawfed ganrif eu disodli gan eiddo masnachol llawer talach.












*Mae cymysgedd o adeiladau o wahanol oedran, maint ac arddull yn rhoi cliw am hanes y Stryd Fawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*






*Mae llawer o nodweddion sy'n gysylltiedig â datblygiad Aberystwyth fel cyrchfan i dwristiaid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'w gweld o hyd yn Heol y Wig (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Roedd Stryd y Bont yn stryd ganoloesol bwysig ac roedd yn gyfeiriad preswyl uchel ei statws ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Roedd y Porth Bach hefyd yn dramwyfa drwy adeiledd gwreiddiol y dref ac roedd yn rhan o'i datblygiad masnachol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd y rhan fwyaf o'r adeiladau yma, ond nid pob un o bell ffordd, yn llai o faint. Mewn cyferbyniad, lôn gefn oedd Stryd y Frenhines yn wreiddiol a ddarparai fynediad y tu ôl i'r bwrdeisi ar y Stryd Fawr. Roedd y stryd gyfan, bron, wedi'i datblygu erbyn 1834. Codwyd bythynnod eithaf cyffredin i ddechrau yn ôl pob tebyg, wedyn, am fod mwy o bwysau i'r dref ddatblygu yn ystod y cyfnod rhwng canol a diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, adeiladwyd eiddo preswyl talach. Mae'r rhain yn nodweddiadol iawn o'r dref, gyda'u waliau wedi'u rendro'n llyfn, ffenestri codi a ffenestri bae ar ogwydd.

Mae'r hanes datblygu hir a'r gwahanol ddefnydd a wnaed o'r adeiladau yn rhoi cymeriad pensaernïol bywiog i ganol y dref, a fynegir mewn adeiladau o wahanol faint sy'n cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau a gorffeniadau.



*Castell Aberystwyth yw'r arwydd mwyaf amlwg o darddiad canoloesol y dref (Hawlfraint y Goron CBHC).*



*Mae'r Hen Goleg yn un o'r adeiladau mwyaf nodedig yn yr hen dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

## ii. Maes Lowri a'r Castell

### Cefndir Hanesyddol

Sefydlwyd y castell fel rhan annatod o'r dref yn 1277. Roedd yn safle bathdy brenhinol am gyfnod byr yn yr ail ganrif ar bymtheg cyn iddo gael ei ddymchwel yn rhannol yn 1649 yn ystod y Rhyfel Cartref. Cafodd ei adfeilion eu hintegreiddio'n ddiweddarach yn natblygiad y dref fel cyrchfan i dwristiaid a chynlluniwyd y tiroedd gyda gerddi a llwybrau ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd Maes Lowri yn rhan o'r tir agored o fewn muriau'r dref ond ni chafodd ei ddatblygu tan ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Y datblygiad cyntaf yma oedd Castle House ar dir a osodwyd ar brydles yn 1788. Roedd y tir y tu ôl iddo yn eiddo i'r teulu Powell o Nanteos a chwaraeodd ran allweddol yn y gwaith o sefydlu'r Ystafelloedd Cyfarfod yn 1820 a chynllunio'r ddwy res o dai yn fuan ar ôl hynny (mae hyd yn oed yn bosibl bod y tai wedi cael eu cynllunio gan W. E. Powell). Roedd gerddi yn y sgwâr a grëwyd rhwng y tai, yr Ystafelloedd Cyfarfod a Castle House. Llwyddodd y rhain i oroesi nes i'r tir gael ei roi i drydedd eglwys Sant Mihangel yn 1890. Roedd y teulu Powell hefyd yn gyfrifol am gynllun y Stryd Newydd ar ddiwedd y 1820au. Ymgorfforwyd Castle House ym mhrosiect uchelgeisiol Gwesty'r Castle yn 1864 a ddaeth, yn ei dro, yn ganolbwynt i'r coleg yn 1872.



*Arddulliau cyferbyniol: yr Hen Goleg a thai Maes Lowri (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

## Potensial Archeolegol

Prin yw'r olion o adeiladwaith gwreiddiol y castell uwchben y ddaear ond cloddiwyd y safle sawl gwaith ers o leiaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ddatgelu gwybodaeth am ei gynllun. Darganfuwyd darn arian Rhufeinig a bwyell sy'n dyddio'n ôl i'r Oes Efydd y tu mewn iddo ond nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw safle cynhanesyddol penodol yn yr ardal. Gallai'r ardal roi rhagor o wybodaeth am ei hanes hir, gan gynnwys hyd yn oed ei ymgorfforiad fel atyniad i dwristiaid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg — dengys argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans ganonau, arsyllfa a siambr dywyll o fewn ei diroedd.

Nid oedd yr ardal o amgylch Maes Lowri wedi'i datblygu ryw lawer tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg ond ychydig a wyddom am y defnydd a wnaed o'r tir yma yn ystod y cyfnod canoloesol, a gallai'r ardal hon ddarparu gwybodaeth archeolegol.

## Nodweddion Adeiladu

Mae i'r ardal hon, sy'n ddatblygiad wedi'i gynllunio o statws uchel ar dir a arferai fod yn dir agored, gymeriad agored eang sy'n cyferbynnu â'r gwaith datblygu dwysach yng nghraidd yr hen dref.

Mae'r tai ym Maes Lowri yn enghraifft drawiadol ac anarferol o waith adeiladu Sioraidd trefol soffistigedig, wedi'i gyfleu'n ofalus â lloriau gwaelod â rendr rystig a rendr ysgrafellog uwch eu pennau. Mae'n ffurfio grŵp cydgordiol â'r hen Ystafelloedd Cyfarfod a'r tai y tu hwnt iddynt. Mae'r Hen Goleg yn gampwaith gothig a adeiladwyd o gerrig Cefn ag addurniadau o gerrig Bath.



*Stryd William — tai a adeiladwyd ar gyfer crefftwyr ar dir a oedd yn eiddo i ystâd Nanteos (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

## iii. Stryd Powell, Y Lôn Gefn, Stryd William a Stryd Siôr

### Cefndir Hanesyddol

Datblygwyd y clofan bach hwn o strydoedd yn y 1860au ar dir agored a oedd yn eiddo bryd hynny i'r teulu Powell o Nanteos. Canolbwynt y datblygiad oedd Eglwys y Santes Fair a adeiladwyd yn 1866.

### Potensial Archeolegol

Yn ôl pob tebyg ni ddatblygwyd yr ardal tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac er y gallai nodweddion a dyddodion archeolegol sy'n gysylltiedig ag amddiffyn y dref ganoloesol fod wedi goroesi o amgylch ymylon yr ardal, mae'n debyg bod datblygiadau sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi cuddio llawer o'r rhain.

### Nodweddion Adeiladu

Cynhwysai'r datblygiad preswyl wedi'i gynllunio dai crefftwyr yn bennaf a adeiladwyd dros gyfnod cyfyngedig. Fe'i datblygwyd yn gymharol dynn ac mae iddo gymeriad pensaernïol cydlynol. Mae rhai o'r tai yn enghreifftiau cynnar o adfywio'r defnydd o gerrig yn y golwg mewn adeiladau ond mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u rendro, ag amrywiaeth o orffeniadau, gan gynnwys rhai enghreifftiau da o fanylion addurnol a lloriau is wedi'u gwladeiddio.



*Un o'r adeiladau cynharaf ar y Stryd Uchel, fel y'i cofnodwyd yn 1900 (Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth).*

## iv. Ardal y Stryd Uchel, Stryd-y-Tollty a Than y Cae

### Cefndir Hanesyddol

Y Stryd Uchel oedd un o'r strydoedd cyntaf i gael ei chynllunio fel rhan o ehangiad y dref ar ei hen dir comin ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, er ei bod yn bosibl bod rhywfaint o waith adeiladu cynharach wedi digwydd ar ei hochr ddwyreiniol, y tu ôl i'r gerddi ar Stryd y Bont. Roedd y tir yn eiddo i gyngor y dref a roddodd y brydles adeiladu gyntaf yma yn 1792. Dilynodd strydoedd eraill yn fuan wedyn er mai prin yw'r adeiladau sydd wedi goroesi o'r cyfnodau datblygu cyntaf — ymddengys fod y rhan fwyaf ohonynt yn dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae'n bosibl iddynt gael eu hailadeiladu yn unol â gofynion uwch pan ddaeth y prydlesau gwreiddiol i ben. Dengys ffotograffau cynnar fod i'r tai gymeriad mwy brodorol; cyflwynodd gwaith ailddatblygu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fwy o ffurfioldeb ac unffurfiaeth. Mae'n debyg bod i Dan y Cae gymeriad mwy diwydiannol yn wreiddiol — roedd ffowndri yma ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac iardiau adeiladu cychod a phyllau llifio ychydig islaw llinell y stryd. Dymchwelwyd datblygiad o dai gweithwyr a gynlluniwyd, gan gynnwys tair rhes fer o dai cefn wrth gefn yn yr ugeinfed ganrif.

### Potensial Archeolegol

Rhedai llinell amddiffynfeydd y dref drwy'r ardal hon, ar hyd llinell Tan y Cae yn ôl pob tebyg, lle y darganfuwyd olion y mur wrth y gyffordd â Stryd y Ro ar ddechrau'r 1950au. Islaw'r llinell hon roedd lleoliad tebygol harbwr canoloesol ac mae'n bosibl bod olion yr harbwr cynnar hwn a'r gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig ag ef wedi goroesi.

### Nodweddion Adeiladu

Mae'r ardal yn estyniad wedi'i gynllunio o waith adeiladu trefol ar dir a arferai fod yn dir agored o fewn terfynau'r hen dref. Cafodd ei datblygu a'i hailddatblygu yn bennaf rhwng diwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r ugeinfed ganrif, mewn cyfres o flociau ar strydoedd a gynlluniwyd mewn patrwm rheolaidd. Gyda rhai eithriadau pwysig, lle mae mesuriadau brodorol (er nad manylion brodorol) i'w gweld o hyd, nodweddir y clofan hwn yn bennaf gan derasau unffurf sy'n cynnwys tai deulawr a thrillawr sy'n dyddio o tua 1860-90. Mae'r tai yn agor yn uniongyrchol oddi ar y strydoedd ac yn aml mae ganddynt ffenestri bae oriel a leolir ychydig uwchlaw lefel y palmant. Mae'r rhan fwyaf o'r tai wedi'u rendro a cheir amrywiaeth mawr o fanylion, gan gynnwys pilastrau, lloriau is wedi'u gwladeiddio, llin-gyrsiau ac ati. Fel arfer, gwaith maen yn y golwg ynghyd ag addurniadau o frics melyn a geir mewn terasau o dai sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.





*Datblygwyd ac ailddatblygwyd dwy ochr y Stryd Uchel ar wahanol adegau, sy'n rhoi cymeriad gwahanol iawn iddynt (Hawlfraint y Goron: CBHC).*




*Mae ffasâd addurnedig Gwesty'r Castle yn cyferbynnu â rhythm unffurf tai teras ar Stryd-y-Tollty (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Rhodfa'r Môr yw trysor mwyaf Aberystwyth: er iddo gael ei ddatblygu dros sawl degawd a chan lawer o bobl wahanol, mae iddo olwg gydgordiol a sicrhawyd drwy ddefnyddio confensiynau adeiladu wedi'u rhannu (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



# 2. Rhodfa'r Môr a'r Promenâd

## Cefndir Hanesyddol

Roedd y tir y datblygwyd y Promenâd arno yn eiddo i gyngor y dref ac ymddengys iddo gael ei gynllunio'n ofalus drwy amlinellu lleiniau yn systematig a'u prydlesu mewn blociau, y cafodd rhai ohonynt eu hisbrydlesu wedyn. Roedd y tai cyntaf ar y Promenâd gerllaw Castle House lle roedd pum tŷ wedi'u hadeiladu erbyn 1806. Mae'n bosibl bod y ddau dŷ gerllaw'r Hen Goleg (Mount Pleasant) yn rhan o'r datblygiad hwn. Erbyn 1820, roedd y gwaith datblygu eisoes yn ymestyn y tu hwnt i ardal bresennol Ffordd y Môr ac, erbyn 1848, roedd 55 o dai yn ymestyn mewn cilgant parhaus bron mor bell â'r hyn a elwir yn Faes Albert bellach. Daeth cyfnod tawel o ran gweithgarwch adeiladu i ben pan adeiladwyd gwesty'r Queen's yn 1864–66 ac, er nad oedd y cynlluniau i ddatblygu gweddill y teras yn gynhwysfawr wedi mynd rhagddynt yn union fel y bwriadwyd, cwblhawyd ystum gyfan y bae drwy adeiladu Neuadd Alexandra yn 1896.

Adeiladwyd y Promenâd ei hun mewn sawl cam. Ymestynnai'r rhan gyntaf o fan gerllaw Heol y Wig i Fryn Diodde gyda'i faddondy ac roedd wedi'i chwblhau erbyn 1820, er iddi gael ei gwneud yn lletach yn 1860. Cwblhaodd ail gam adeiladu yn 1865-66 y rhan hon o'r Promenâd hyd at droed Craig-glais ac ymestynnodd trydydd cam adeiladu rhwng 1901 a 1904 y Promenâd o dan y castell hyd at Dan y Cae. Ni chafodd y rhan olaf, a oedd yn ei gysylltu â'r harbwr, ei hadeiladu tan 1930–31.




*Agorodd y pier gyntaf yn 1865 (y Llyfrgell Genedlaethol).*

## Potensial Archeolegol

Cyn i'r ardal gael ei datblygu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae'n bosibl bod glan y môr yn safle gwahanol weithgareddau morol ac mae'n bosibl bod dyddodion palaeo-amgylcheddol sylweddol wedi goroesi ar hyd yr arfordir. Fodd bynnag, nid yw'n debyg y ceid llawer o dystiolaeth o ochr y tir — mae capel canoloesol wedi'i gofnodi ond diflannodd o dan y môr yn y ddeunawfed ganrif.


## Nodweddion Adeiladu

Adeiladwyd Rhodfa'r Môr yn raddol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn proses a reolwyd yn ofalus sy'n golygu bod cryn dipyn o gydlyniad gweledol iddi yn gyffredinol. Mae gan y Promenâd ei hun hanes hir o adeiladu, ailadeiladu ac atgyweirio ond mae bellach yn ffurfio ffin lydan bwysig rhwng adeiladau a'r môr ac mae'n meddu ar ei gymeriad cryf ei hun. Mae gan y pier hanes brith o adeiladu, ailadeiladu ac addasu gan gynnwys ei wneud yn fyrrach, a dymchwelwyd y Baddondy yn 1892. Prin yw'r strwythurau eraill sy'n gysylltiedig â hamdden ar y Promenâd. Yr eithriad mwyaf nodedig yw'r cysgodfan yn Bath Rock a adeiladwyd yn y 1920au. Mae cymeriad cryf y morgloddiau â'u rheiliau haearn bwrw a rhywfaint o'r dodrefn stryd (yn arbennig y meinciau o waith nadreddog) yn elfennau nodedig o'r draethlin.

Yn nodweddiadol, adeiladwyd Glan-y-Môr mewn cyfres o ddatblygiadau unigol a oedd yn cydymffurfio â model adeiladu cyffredin a bennodd uchderau lloriau a chonfensiynau o ran arddull. Dengys delweddau cynnar a chyfres o ffotograffau sy'n dyddio o'r 1860au gynllun cyson iawn o amgylch ystum y bae, a nodweddir yn bennaf gan resi o ffenestri bae crwm, ffenestri codi â chwareli bach a fframiau drysau clasurol mewn adeiladau yr oedd pob un ohonynt wedi'i rendro. Yr unig eithriad gwirioneddol i'r unffurfiaeth hon yw Teras Bonsalls, a adeiladwyd yn wreiddiol fel rhes o dai deulawr ond a ailadeiladwyd tua 1870 fel bloc llawer talach. Erydwyd y cytgord arddulliadol hwn gan y gwahanol arddulliau a gyflwynwyd er mwyn ymestyn y teras o ddiwedd y 1860au ymlaen, a oedd yn ffafrio cerrig yn y golwg, a chan addasiadau a wnaed i resi unigol o dai. Fodd bynnag, tueddai'r addasiadau hyn i gael eu gwneud i'r bloc cyfan, yn hytrach nag i elfennau unigol ohono. Dim ond newidiadau mwy diweddar sydd wedi gweld y cytgord yn cael ei erydu ymhellach fyth yn sgil cyflwyno gwahanol fathau o ffenestri mewn gwahanol elfennau o'r un bloc. Mae safle Neuadd y Brenin yn torri ar draws rhythm y teras oherwydd maint, ffurf a manylion y gwaith ailddatblygu; yn wreiddiol, roedd llinell adeiladu barhaus yma, heb unrhyw fannau agored.



*Mae'r cysgodfan, a adeiladwyd tua 1925, yn un o'r ychydig strwythurau glan môr traddodiadol ar y Promenâd (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae llinellau troellog y Promenâd yn parhau tua Castle Point (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

# 3. Sgwâr Owain Glyndŵr, Rhodfa'r Gogledd, Stryd Portland, Ffordd Alexandra a Ffordd y Môr

## Cefndir Hanesyddol

'*We the jury direct that part of the waste land called Morfa Swnd be mapped and divided into convenient plots for buildings*.' [60]

Roedd yr ardal hon yn cynnwys rhan o dir comin y dref. Roedd y gorfforaeth wedi gorfod amddiffyn ei hawliau i'r tir comin rhag sialens y teulu Powell o Nanteos a'r teulu Pryse o Ogerddan. Enillodd ei achos ond roedd yn fuddugoliaeth gostus a bu'n rhaid iddi fynd ati'n systematig i osod tir ar brydles i'w ddatblygu am resymau ariannol. Roedd pwysau cynyddol hefyd i alluogi'r dref i ehangu y tu allan i'w muriau.

Ceir y cyfeiriad cyntaf at dai a adeiladwyd islaw'r Stryd Fawr yn 1798,[61] ond erbyn 1809 roedd Rhodfa'r Gogledd a'r grid o strydoedd gerllaw wedi'u cynllunio — aeth y gwaith datblygu rhagddo yn gyflym ac erbyn 1834 dim ond ychydig o fylchau a oedd i'w cael ar Rodfa'r Gogledd.

Ymddengys i'r cyngor adolygu ei brydlesau o'r 1860au ymlaen a chafodd y rhan fwyaf o'r eiddo yn yr ardal hon ei ailadeiladu'n llwyr neu ei ailfodelu i raddau helaeth yn ystod y cyfnod hwn. Ni ddechreuwyd datblygu ar hyd Ffordd Alexandra tan ar ôl dyfodiad y rheilffordd yn ôl pob tebyg; ynghyd â Ffordd y Môr, dyma'r ardal lle y gwnaed y rhan fwyaf o'r gwaith ailddatblygu ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

## Potensial Archeolegol

Ni ddatblygwyd yr ardal tan ddiwedd y ddeunawfed ganrif, er y gallai gwybodaeth archeolegol fod ar gael am y cyfnod canoloesol ar hyd Stryd Portland a Rhodfa'r Gogledd, a leolid yn union y tu allan i ddau borth y dref. Gallai hefyd fod rhywfaint o wybodaeth archeolegol am ddatblygiadau diwydiannol sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnwys ffowndri haearn a gwaith llechi, a gofnodwyd ar fapiau sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

## Nodweddion Adeiladu

Roedd hierarchaeth bendant yn perthyn i gynllun y strydoedd yn yr ardal hon a chynlluniwyd Rhodfa'r Gogledd fel coedlan ffurfiol lydan, Stryd Portland fel prif stryd eilradd a'r lleill fel lonydd bach. Pylwyd y gwahaniaethau hyn gan waith ailddatblygu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond roedd gwahaniaethau o hyd ym maint a statws yr adeiladau.

Adeiladwyd yr adeiladau cynharaf sydd wedi goroesi ar Rodfa'r Gogledd o gerrig lleol yn y golwg a osodwyd mewn blociau patrymog rheolaidd. Buan y disodlwyd yr arddull adeiladu hon gan y defnydd o rendr fel deunydd gorffen, ac mae'r ardal gyfan yn cynnwys rhai enghreifftiau gwych sy'n dangos sut y datblygodd y defnydd ohono drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erbyn diwedd y ganrif honno roedd deunyddiau eraill yn dod i'r amlwg, yn enwedig ar gyfer prosiectau yn cynnwys adeiladau masnachol pwysig: roedd yn well gan fanciau gerrig wedi'u mewnforio tra bo datblygiadau masnachol eraill wedi cyflwyno terracotta llachar neu gyfuniad o frics a cherrig. Gyda'r amrywiaeth ehangach hwn o ddeunyddiau daeth amrywiaeth ehangach o arddulliau ar gyfer adeiladau masnachol (tueddai'r strydoedd preswyl i gydymffurfio'n agosach â model Sioraidd). Fodd bynnag, mae'n nodedig i'r arddulliau newydd hyn gael eu cyflwyno, ar y cyfan, gan roi cryn sylw i'r treflun yn gyffredinol — mae Ffordd y Môr yn cynnwys amrywiaeth rhyfeddol o arddulliau adeiladu unigol sy'n cael eu cydbwyso gan y ffaith bod yr adeiladau yn debyg i'w gilydd o ran maint ac uchderau lloriau, a chyda manylion pensaernïol sy'n darparu cyfres o amrywiadau ar thema gyffredin.



*Rhai o'r tai cyntaf i gael eu hadeiladu ar Rodfa'r Gogledd, stryd newydd a gynlluniwyd ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Oherwydd eu waliau o gerrig yn y golwg a manylion gwaith saer gwych, maent yn enghreifftiau da o'r arddull Sioraidd a oedd yn nodweddiadol o adfywiad Aberystwyth fel tref glan môr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Rhai o'r tai olaf i gael eu hadeiladu ar Rodfa'r Gogledd, ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Maent yn arddangos â balchder y grefft sy'n gysylltiedig â gwaith rendr pensaernïol (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Harbwr Aberystwyth o'r awyr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

# 4. Yr Harbwr

'*Nothing in Aberystwyth so powerfully exhibits the march of its improvements than the works at the New harbour.*'[62]

## Cefndir Hanesyddol

Fel pob un o'r trefi â chastell a sefydlwyd gan Edward I, lleolwyd Aberystwyth er mwyn manteisio ar y môr. Roedd gan y dref gynnar harbwr a adeiladwyd rhwng 1280 a 1295. Ymestynnai mur asgell i'w hamddiffyn o'r gefnen o garreg gerllaw tŵr de'r castell, tua'r de-ddwyrain ar linell bresennol Rhodfa'r Môr. Mae'n debyg bod darlun gan Gastineau sy'n dyddio o tua 1830 yn dangos y mur hwn, gan gynnwys tŵr bach ran o'r ffordd ar hyd-ddo. Yn y cyfrif ar gyfer 1287–89 cyfeirir at 'new wall on the sea front, with a new tower, outside the outer bailey, and in 1955, footings of a wall were revealed in a trench in the roadway to the north of South Marine Terrace'.[63]

Ffynnodd yr harbwr yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg ond, erbyn dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, roedd bar tywod a oedd yn ffurfio ar draws ei aber yn amharu ar fasnach. Yn ystod y ddeunawfed ganrif, lluniwyd cynigion i wella'r harbwr gan Lewis Morris ac, yn sgil sefydlu ymddiriedolaeth ar gyfer yr harbwr yn 1760, mae'n bosibl bod pobl wedi dechrau buddsoddi unwaith eto mewn cyfleusterau harbwr. Ond mae map John Wood dyddiedig 1834 ond yn dangos yr hyn a allai fod yn lanfa, os o gwbl, yn yr ardal a elwir bellach yn Tan y Cae, lle mae safle adeiladu cychod bach yn cyfateb i fornant yr harbwr modern.

Darparodd Deddf Porthladdoedd 1780 ar gyfer atgyweirio ac ymestyn yr harbwr ond ni ddechreuwyd ar y gwaith tan 1836, pan adeiladwyd pier cerrig ar yr ochr ddeheuol er mwyn amddiffyn mynedfa'r harbwr a chodwyd y traeth gan ddefnyddio asennau i lywio a ffurfio ei lethr. Torrwyd ffordd newydd hefyd drwy garreg ac adeiladwyd pont dros aber afon Ystwyth. At hynny, roedd arglawdd a oedd yn cario tramffordd o'r bont i Alltwen ar ochr ddeheuol y bae lle y cloddiwyd y cerrig ar gyfer yr harbwr. Gwnaed rhagor o waith yn 1858 pan ymestynnwyd y pier ac adeiladwyd glanfa a chei gyda warysau ar hyd-ddo;[64] ac unwaith eto, rywbryd ar ôl 1873, pan ddaeth cyngor y dref yn gyfrifol am yr harbwr. Daethpwyd â cherrig o Ystrad Meurig i mewn ar Reilffordd Manceinion ac Aberdaugleddau a oedd wedi'i chysylltu â'r harbwr gan bont dros afon Ystwyth.[65]

Roedd yr ardal yn un gwbl ddiwydiannol tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ddisodlwyd melin lifio ac iard goed gan ddatblygiad tai y Ro Fawr.



*Pont Trefechan sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a hen storfa ŷ d — enghraifft brin o warws gerllaw harbwr sydd wedi goroesi. (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Cymysgedd o ddatblygiadau modern sy'n edrych dros yr harbwr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

## Potensial Archeolegol

Darganfu gwaith cloddio a wnaed tua 1922 un o'r casgliadau mwyaf o fflintiau Mesolithig yng Ngheredigion ynghyd â rhai arteffactau diweddarach. Mae'n amlwg y gallai dyddodion a safleoedd cynhanesyddol eraill fod wedi goroesi yn yr ardal hon, gan gynnwys dyddodion tanddwr neu ddyddodion llawn dŵr a allai roi gwybodaeth balaeo-amgylcheddol werthfawr i ni. Mae cynllun yr harbwr canoloesol yn anhysbys i raddau helaeth ac mae'n bosibl bod nodweddion a dyddodion archeolegol sy'n gysylltiedig ag ef wedi goroesi. Oherwydd maint y gweithgarwch adeiladu a gweithgarwch diwydiannol diweddarach gerllaw, ynghyd â gwaith carthu i ddarparu ar gyfer llongau mwy o faint, nid yw'n debyg bod unrhyw olion sylweddol wedi goroesi.

## Nodweddion Adeiladu

Mae'r rhan fwyaf o strwythurau presennol yr harbwr yn gymharol fodern ond mae'n debyg bod elfennau o'u rhagflaenwyr wedi goroesi, wedi'u hymgorffori yn y waliau modern. Mae'n debyg bod y warws gerllaw'r bont (Bar Gwin Rummers bellach) yn dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac fe'i dangosir ar fap John Wood dyddiedig 1834. Mae'r Ro Fawr yn ddatblygiad glan môr nodweddiadol sy'n cynnwys tai llety — adeiladau tal â llawer o ffenestri bae — ond prin yw'r elfennau o gymeriad gwreiddiol sydd i'w gweld yno heddiw.

# 5. Trefechan

## Cefndir Hanesyddol

Ymddengys i Drefechan dyfu fel maestref ddiwydiannol fach pen bont, heb ddilyn unrhyw gynllun penodol. Fe'i dangosir ar fapiau a delweddau sy'n dyddio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ac ychydig a wyddom amdani cyn hynny, er ei bod yn ddigon posibl bod pen bont yn ganolbwynt i waith datblygu o'r cyfnod canoloesol ymlaen.

Awgrymwyd hefyd ei bod yn bosibl bod anheddiad Cymreig brodorol yma cyn i'r dref gael ei sefydlu er nad oes unrhyw dystiolaeth archeolegol i ategu hyn. Roedd Rheilffordd Manceinion ac Aberdaugleddau wedi'i hamgáu i'r de erbyn 1867 pan oedd yr ardal yn cynnwys bracty a sawl melin lifio, a thai teras bach gwasgaredig, yn ogystal â'r odynau calch a oedd eisoes wedi'u cofnodi yn 1834.

Golchwyd pont gerrig gynnar i ffwrdd yn 1796. Gosodwyd pont bren dros dro yn ei lle ac wedyn pont gerrig yn 1798 (y ddwy wedi'u cynllunio gan John Nash). Dymchwelwyd y bont hon yn ei thro gan lifogydd dinistriol yn 1886 a chwblhawyd y bont bresennol yn 1890.

## Potensial Archeolegol

Yn yr ardal hon y mae'r llethrau sy'n arwain i fyny at Ben Dinas ac mae'r amrywiaeth o eitemau a ddarganfuwyd o fewn y clostir mawr sy'n dyddio o'r Oes Haearn yn awgrymu ei fod yn safle pwysig iawn yn y cyfnod cynhanesyddol. Mae'n ddigon posibl hefyd bod yr ardal o amgylch gwaelod y bryn yn cynnwys rhagor o archeoleg gynhanesyddol.

Gallai'r ardal hefyd gynnwys tystiolaeth o weithgarwch anheddu canoloesol a nodweddion eraill, gan gynnwys pontydd cynnar. Fodd bynnag, mae'n debyg i weithgarwch diwydiannol diweddarach yn yr ardal gael cryn effaith ar unrhyw olion cynharach ac felly mae'n bosibl bod archeoleg wedi'i chwtogi'n sylweddol a'i bod yn anodd ei dehongli.

Mae'n fwy tebygol, efallai, fod tystiolaeth sy'n ymwneud â bywyd diwydiannol a datblygiad y dref yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi goroesi.



*Mae'r hen fracty yn bwysig i'n hatgoffa o orffennol diwydiannol Trefechan (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



## Nodweddion Adeiladu

Tan ddechrau'r ugeinfed ganrif roedd i Drefechan gymeriad brodorol a diwydiannol yn bennaf ac roedd yn cynnwys nifer fawr o fythynnod bach, y mae rhai ohonynt wedi'u cofnodi mewn hen ffotograffau. Safai'r ddau dŷ Sioraidd ysblennydd (The Lawn a The Green) allan ymhlith clystyrau a rhesi o fythynnod. Erbyn hyn, roedd i'r ardal enw drwg oherwydd ansawdd gwael ei thai. Disodlwyd llawer o'r tai hyn gan ddatblygiadau cynnar a goleuedig gan gyngor y dref a oedd, fel arfer, yn cynnwys tai teras bach a adeiladwyd o frics neu frics a phlastr garw. Mae'r Fountain Inn, a'r bracty, gyda'i odyn fotel y tu ôl iddo, yn enghreifftiau nodedig o adeiladau cynnar sydd wedi goroesi. Mae sawl odyn galch hefyd yn tystio i hanes diwydiannol yr ardal.



*Datblygiadau tai cynnar yn Nhrefechan (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

# 6. Ardal Morfa Mawr a Ffordd y Gogledd

## Cefndir Hanesyddol

Roedd llinell Morfa Mawr wedi'i nodi erbyn 1809 (ymddengys ar fap William Couling) ond nid oedd wedi'i datblygu rhyw lawer yn 1834 (ac eithrio Bwthyn Sandmarsh). Y tu ôl iddi, erbyn hyn, roedd rhafflan wedi'i sefydlu a oroesodd ddatblygiad y stryd, a ddechreuodd gyda neuadd y dref yn 1856 ac a barhaodd tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar ffurf datblygiadau preswyl. Dangosir dechrau Ffordd y Gogledd ar fap yr Arolwg Ordnans dyddiedig 1889. Roedd wedi bod yn rhan o gynllun uchelgeisiol Seddon ar gyfer yr ardal glan môr yn 1866 ac roedd yr ysbyty wedi'i leoli yno o 1885 ymlaen. Fodd bynnag, ynghyd â'r strydoedd y tu ôl iddi, ni chafodd Ffordd y Gogledd ei gosod yn derfynol tan y 1890au.

Mae bron pob un o'r datblygiadau ar hyd-ddi a'r ffyrdd cyfagos yn dyddio o'r 1890au a'r 1900au ac felly mae iddi gymeriad cydlynol. Uwchlaw'r datblygiadau preswyl ceir y chwareli helaeth a ddarparodd lawer o'r cerrig adeiladau a ddefnyddiwyd yn y dref.

## Potensial Archeolegol

Mae'n bosibl bod gweithgarwch cynhanesyddol yn yr ardal hon a bod olion archeolegol wedi goroesi. Mae'n debyg bod unrhyw dystiolaeth o weithgarwch cloddio yn ystod y cyfnod canoloesol wedi'i ddinistrio gan weithgarwch diweddarach.

## Nodweddion Adeiladu

Mae'r Morfa Mawr yn nodi'r ffin rhwng canol y dref a'r faestref. Ar ei ochr dde-orllewinol, mae'r tai yn agor yn uniongyrchol oddi ar y palmant ac mae'n debyg o ran ei arddull i'r datblygiadau ar strydoedd cyfagos, tra bod gan ochr ogledd-ddwyreiniol y stryd gynllun ehangach, gan gynnwys gerddi blaen bach. Cymeriad trefol yn bennaf sydd i'r tai o hyd a cheir rhesi o dai teras tal, gan gynnwys enghraifft nodedig o'r adfywiad gothig. Eir ymhellach ag ehangder maestrefol ar Ffordd y Gogledd lle mae unedau datblygu, fel arfer, yn dai pâr neu hyd yn oed yn dai unigol, sydd wedi'u gosod mewn gerddi mwy o faint ac yn edrych dros feysydd chwaraeon agored. Roedd gwaith datblygu ar strydoedd cyfagos ar ffurf rhesi o dai teras.

Roedd amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu ar gael erbyn i'r ardal hon gael ei datblygu, yn ogystal ag amrywiaeth o arddulliau y tybiwyd eu bod yn briodol ar gyfer yr hyn a oedd yn lleoliad maestrefol yn ei hanfod. Mae manylion gwreiddiol, gan gynnwys ffenestri, gwaith haearn pensaernïol a ffiniau, sydd wedi goroesi, yn cyfrannu at gymeriad cryf yr ardal.






*Chwith (o'r brig i'r gwaelod): Tai maestrefol o ansawdd uchel yn ardal Morfa Mawr a Ffordd y Gogledd (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

# 7. Ardal Coedlan y Parc

## Cefndir Hanesyddol

Tan yn gymharol ddiweddar, yr unig ffordd o gyrraedd Aberystwyth o'r de oedd ar draws Pont Trefechan. Roedd y tir ar lan ogledd-ddwyreiniol afon Rheidol yn dir pori cyffredin yn wreiddiol a oedd yn eiddo i'r gorfforaeth (Morfa Mawr), a oedd wedi'i amgáu fel cyfres o gaeau rheolaidd erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dim ond yr ardal agosaf at yr hen dref yn Dan Dre a oedd wedi'i datblygu, yn gyntaf drwy adeiladu tanerdy, wedyn drwy adeiladu gwaith nwy y dref yn 1838. Fodd bynnag, agorodd dyfodiad y rheilffyrdd yn 1864 a 1867 yr ardal gyfan i amrywiaeth o weithgareddau a oedd fwyaf addas i leoliad y tu allan i'r dref y gellid ei gyrraedd ar y trên.

Y cyntaf o'r rhain oedd y farchnad wartheg yn ôl pob tebyg, a oedd eisoes yn cael ei hystyried erbyn 1865 ac a oedd wedi agor erbyn 1874. Roedd yn gysylltiedig â lladd-dy a gwaith canhwyllau, a thanerdy. Gerllaw, roedd cysylltiad agos rhwng Ffowndri Haearn Rheidol a Rheilffordd Manceinion ac Aberdaugleddau ac mae hyd yn oed yn bosibl iddo gael ei adeiladu ar ei gyfer.

A hithau bob amser yn barod i fentro, aeth y gorfforaeth yn ei blaen i gynllunio stryd newydd (Coedlan y Parc — a alwyd yn Smithfield Road i ddechrau). Gyda choed ar hyd-ddi, dechreuwyd ei chynllunio ar gyfer datblygiadau tai yn yr 1880au ond ychydig iawn o adeiladau a oedd wedi'u codi erbyn 1889 ac mae'r rhan fwyaf o'r datblygiadau preswyl yn dyddio o'r 1890au neu ddechrau'r 1900au. Datblygwyd y caeau a oedd yn weddill rhwng y ffordd a'r afon yn ystod y cyfnod hwn hefyd, gan gynnwys tai cyngor cynharaf Aberystwyth ar Stryd Cae Glas, a adeiladwyd yn 1899. Adeiladwyd y Neuadd Ymarfer ar Stryd Glyndŵr yn 1904.

Ymestynnwyd Coedlan y Parc fel Boulevard Saint Brieuc a Rhodfa Padarn. Datblygwyd hen safle'r farchnad wartheg at ddibenion manwerthu ar ddechrau degawd cyntaf y ganrif hon.

## Potensial Archeolegol

Nodir ffin ogledd-orllewinol yr ardal hon â llinell dybiedig mur y dref ganoloesol ac mae'n bosibl bod y mur a'i ffos wedi goroesi o dan Dan Dre neu'r adeiladau sy'n sefyll ar hyd-ddi. Mae'n debyg bod yr ardal hefyd yn cynnwys safle melin y dref ganoloesol a wasanaethid gan ffrwd a lifai ar hyd Rhodfa Plascrug.



*Datblygiad maestrefol ar y Buarth o amgylch Eglwys y Drindod Sanctaidd (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Mae'n bosibl bod diwydiannau eraill a ddefnyddiai ddŵr wedi datblygu yma hyd yn oed cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd crynodiad o ddiwydiant gan gynnwys tanerdy, gwaith nwy a gwaith goleuadau trydan. Mae'n bosibl y gallai'r ardal ddatgelu gwybodaeth am amddiffynfeydd y dref ganoloesol a gweithgareddau diwydiannol, er na ellir rhagweld faint o olion sydd wedi goroesi. Gall hefyd fod tystiolaeth ar gyfer y gwaith nwy a'r tanerdy o dan safle maes parcio Dan Dre.

### Nodweddion Adeiladu

Ceir olion gweithgareddau diwydiannol a arferai nodweddu'r ardal hon, gan gynnwys y swyddfa nwy a'r ystafelloedd arddangos a adeiladwyd yn 1901, y gwaith canhwyllau ac un o waliau ffowndri haearn Rheidol, sy'n ffurfio ffin y cae pêl-droed. Ar hyd Coedlan y Parc ceir cyfres o derasau o dai deulawr a thrillawr. Maent wedi'u rendro ag amrywiaeth o orffeniadau (gan gynnwys rhai enghreifftiau da o gerrig rystig haenog ar y llawr gwaelod), neu maent yn adeiladau brics â phlastr garw. Fel tai eraill yn Aberystwyth, mae ffenestri bae a ffenestri dormer yn nodwedd amlwg a cheir manylion ffin da hefyd gan gynnwys rheiliau haearn bwrw.

## 8. Y Buarth a Phlascrug

### Cefndir Hanesyddol

Roedd y Buarth yn frigiad creigiog a oedd bron yn berffaith fel ffynhonnell deunydd adeiladu ar gyfer y dref. Aethpwyd ati i ddatblygu'r ardal hon ar ôl sefydlu Eglwys y Drindod Sanctaidd, y dechreuwyd ei hadeiladu yn 1883, a dilynodd tai o ddiwedd y 1890au pan gaffaelwyd y brydles gan ddatblygwr preifat — sef T. E. Salmon.

Roedd Plascrug yn ffermdy o darddiad hynafol, o bosibl, a gysylltir yn draddodiadol â'r tywysogion Cymreig ac a ystyrir weithiau yn safle castell Aber-rheidol. Fodd bynnag, ni ddatgelodd gwaith cloddio a wnaed yn Ysgol Gynradd Plascrug yn 2009 unrhyw dystiolaeth o weithgarwch canoloesol. Mae'n fwy tebygol bod tŵr a oedd ynghlwm wrth y tŷ yn ffoledd yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif yn hytrach nag amddiffynfa ganoloesol. Roedd y tŷ yn eiddo i ystad Nanteos nes iddo gael ei werthu i'r gorfforaeth yn 1873. Erbyn hyn, roedd Rhodfa Plascrug wedi hen ymsefydlu fel llwybr cerdded





*Chwith a chwith isod: Mae tai teras ar y Buarth yn cynnwys rhai o'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth a gwaith adeiladu maestrefol (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

poblogaidd, a gafodd ei wella gan y gorfforaeth drwy blannu coed a darparu meinciau. Dilynai linell ffrwd melin, a oedd wedi'i lleihau yn ffos fach erbyn 1889. Gwerthodd y gorfforaeth y safle i awdurdod addysg y sir yn 1964 a dymchwelwyd yr hen dŷ, y meddiannir ei safle bellach gan ysgol gynradd Plascrug.

### Potensial Archeolegol

Fel brigiad creigiog o dir uchel, mae'n bosibl bod y Buarth wedi denu gweithgarwch cynhanesyddol. Fodd bynnag, bydd gweithgarwch cloddio yn y cyfnod canoloesol ac mewn cyfnodau diweddarach, ynghyd â datblygiadau trefol sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, wedi dileu unrhyw dystiolaeth o weithgarwch anheddu a defnydd tir cynharach.

### Nodweddion Adeiladu

Mae tai ar y Buarth yn cwmpasu amrywiaeth o fathau a meintiau ond, ar y cyfan, ceir terasau neu resi o dai pâr cytbwys. Fel arfer mae gan dai llai o faint ffryntiadau gwastad ond tai mwy o faint sydd fwyaf cyffredin a chanddynt ffasadau wedi'u modelu'n gryf, â ffenestri bae, bondo a manylion eraill sy'n rhoi rhythm cryf iddynt. Mae i'r ardal gydlyniant hynod; atgyfnerthir hyn gan y ffordd y caiff amrywiaeth o ddeunyddiau — brics mewn amrywiaeth o liwiau, cerrig, plastr garw — eu rheoli'n ofalus o fewn grwpiau cyfatebol. Atgyfnerthir undod y tai ymhellach gan y ffaith bod cryn dipyn o'r manylion gwreiddiol wedi goroesi, gan gynnwys ffenestri a drysau a manylion ffin cryf.

## 9. Ardal Ffordd Llanbadarn

### Cefndir Hanesyddol

Cyffordd Ffordd Llanbadarn a Bryn Penglais oedd safle porth y gogledd. Sefydlwyd tollbyrth yn sgil Deddf Tollbyrth Sir Aberteifi 1770 ond, er bod y ffordd i Fachynlleth yn ffordd dyrpeg o'r cychwyn, ni chynhwyswyd y ffordd o Aberystwyth drwy Lanbadarn a Phonterwyd tan 1812. Symudwyd y porth i gyffordd y ddwy ffordd o safle cynharach ymhellach i'r gorllewin, efallai pan sefydlwyd y ffordd dyrpeg newydd hon. Gwnaed rhywfaint o waith datblygu ar hyd y ffordd yn arwain at y tollborth ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a atgyfnerthwyd gan waith ailadeiladu ar raddfa fawr mewn terasau lled barhaus ar hyd y briffordd tua diwedd y ganrif. Roedd anheddiad dibynnol a oedd yn cynnwys bythynnod bach i'r de o'r ffordd yn bodoli erbyn 1834. Yn y fan hon roedd tanerdy, a goffeir yn yr enwau Skinner Street a'r Skinners Arms. Enwyd tafarn y Cwps ar ôl gweithdai'r cowperiaid a leolid y tu ôl iddo.

Mae'n debyg i'r gwaith datblygu ar hyd y stryd y tu hwnt i'r tollborth ddechrau yn y 1860au, ond ni ddechreuodd yr ardal hon ehangu o ddifrif tan ddiweddf y 1880au, yn sgîl cynllunio Ffordd Ddewi a Ffordd Caradog ar yr hen gaeau. Erbyn 1889, roedd yr ychydig filâu cyntaf wedi'u hadeiladu ar Ffordd Ddewi ac un tŷ ar Ffordd Caradog. Erbyn hyn, roedd Llanbadarn Fawr hefyd yn cael statws maestrefol o ryw fath ac roedd datblygiadau llinellol yn graddol ymestyn tua'r gorllewin o'r eglwys mewn cyfres o ddatblygiadau tai, a oedd yn cynnwys filâu sylweddol.

Roedd gwaith datblygu ar ochr ddeheuol y ffordd wedi'i gyfyngu'n rhannol gan lethrau serth y Buarth (y cafodd ficerdy Llanbadarn ei adeiladu mewn llecyn clyd oddi tano yn y 1820au a'i ailadeiladu yn y 1860au) ac yn rhannol gan y fynwent, a sefydlwyd yma yn 1883.



*Brig: Tai teras ar Ffordd Llanbadarn — arddangosfa nodedig o waith brics addurniadol (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Dde ac isod: Ffordd Llanbadarn — tai maestrefol mawr mewn gerddi helaeth (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



## Potensial Archeolegol

Nid oes unrhyw awgrym o weithgarwch yn yr ardal hon cyn y cyfnod ôl-ganoloesol er ei bod yn debyg bod y ffordd sy'n cysylltu dau anheddiad canoloesol Aberystwyth a Llanbadarn Fawr ei hun yn dyddio o'r cyfnod canoloesol.

## Nodweddion Adeiladu

I'r gorllewin o gyffordd Bryn Penglais a Ffordd Llanbadarn, mae cymeriad y terasau parhaus yn dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac maent wedi'u hadeiladu o gerrig ag addurniadau brics neu wedi'u gorffen â rendr addurniadol. Arferai bythynnod brodorol bach sefyll ar y strydoedd llai o faint y tu ôl iddynt ond fe'u disodlwyd i gyd gan dai cyngor ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a adeiladwyd yn yr arddull brics a phlastr garw, sy'n nodweddiadol o ddatblygiadau cynnar gan gyngor y dref. Ar Ffordd Llanbadarn gerllaw safle porth y gogledd, nodweddir y cyfnod datblygu cynharaf gan resi o dai teras byr ac amrywiol sydd wedi'i hadeiladu o gerrig a brics.

Ymhellach allan, filâu maestrefol mawr a thai pâr mewn gerddi aeddfed a geir yn bennaf, gydag amrywiaeth eclectig o ddeunyddiau, manylion ac arddulliau. Ochr yn ochr â gwaith cerrig traddodiadol ag addurniadau brics, ceir brics coch a phlastr garw ag addurniadau wedi'u gwneud yn rhannol o bren neu fanylion terracotta. Roedd cysylltiad rhwng y deunyddiau a ddewiswyd â'r arddull a ddewiswyd, p'un a ddewiswyd yr arddull celf a chrefft, yr arddull gothig neu'r arddull Eidalaidd. Mae'r ffiniau bron yr un mor amrywiol ag arddulliau'r tai eu hunain ac maent yn amrywio o waith cerrig garw i gerrig patrymog mwy taclus, gwaith brics a haearn bwrw.



*Brig a chwith pellaf: Ffordd Caradog a Choedlan Iorwerth — amrywiadau ar y tŷ pâr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*





*Chwith: Ffordd Ddewi — tai teras ar raddfa fawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*

# 10. Penglais

## Cefndir Hanesyddol

Dengys map yr Arolwg Ordnans 1889 Benglais fel caeau a choetir, gyda gweithgarwch cloddio ar raddfa fach yma ac acw, a dechrau gweithgarwch datblygu sy'n glynu wrth ochr ddeheuol llinell y ffordd. Yn y fan hon roedd Tloty Undeb Aberystwyth wedi'i adeiladu yn 1840, lle yr adeiladwyd Ysbyty Bronglais yn 1966. Yn y fan hon hefyd adeiladwyd barics y milisia yn 1867, a drowyd yn dai cyngor yn 1912 ac a ddymchwelwyd yn 1979. Adeiladwyd Bythynnod Gogerddan fel tai crefftwyr gerllaw porth y gogledd ond, y tu hwnt iddynt, roedd gwaith datblygu a oedd yn mynd rhagddo yn yr 1880au ar ffurf tai pâr mwy o faint mewn gerddi bach.

Ar ochr ogleddol y ffordd, roedd y tir yn rhan o ystad Penglais a oedd yn eiddo i'r teulu Richardes a dim ond yn raddol y'i rhyddhawyd i'w ddatblygu, gan ddechrau yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel ar hyd llinell y ffordd ac yn y caeau yn union y tu ôl iddi (Llwyn Afallon a Chae Melyn). Yn y 1940au, cynigiodd cyngor y dref y dylid prynu tir drwy orfodaeth er mwyn adeiladu tai cyngor gyferbyn â'r fynedfa i'r Llyfrgell Genedlaethol, ond gwrthwynebodd y coleg y cynllun hwn, camodd i mewn a phrynodd y tir, gan gynnig naw hectar (23 erw) fel parc cyhoeddus ar yr amod na châi unrhyw dai eu hadeiladu. Adeiladwyd Plas Penglais, sef canolbwynt gwreiddiol yr ystad hon, yn 1770, fe'u hailfodelwyd yn y 1830au, ac fe'u hailadeiladwyd fel preswylfa'r Is-ganghellor yn 1951 gan Syr Percy Thomas.

Cafwyd rhywfaint o ddatblygiadau hapfasnachol yn y 1960au yn Dan y Coed ond mae rhan helaeth o'r ardal bellach wedi'i gorchuddio â choed.

## Potensial Archeolegol

Mae darn arian Rhufeinig, a ddarganfuwyd yn yr ardal hon yn awgrymu rhywfaint o weithgarwch yn y cyfnod hwn ond nid yw cymeriad unrhyw weithgarwch yma cyn y cyfnod ôl-ganoloesol wedi'i nodi'n fanwl eto. Mae adeiladau ar gwr y dref sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnwys y barics a'r tloty, wedi'u dymchwel, gan adael archeoleg bosibl yn unig fel tystiolaeth ffisegol o'r adeiladau.

## Nodweddion Adeiladu

Mae i ddwy ochr Bryn Penglais gymeriadau gwahanol iawn, sy'n adlewyrchu gwahanol gyfnodau ac amgylchiadau eu datblygiad. Datblygwyd yr ochr ddeheuol yn gynharach ac roedd yn cynnwys teras cerrig hir Bythynnod Gogerddan, datblygiad unffurf a nodweddir gan fwâu gwarrog ei agoriadau sy'n rhoi ychydig o naws gothig iddo. Y tu hwnt i safle'r barics a ailddatblygwyd, adeiladwyd tai mwy o faint mewn cyfres o barau wedi'u hailadrodd a rhai filâu unigol y tu hwnt iddynt. Cerrig yn y golwg a geir yn bennaf yn yr ardal hon, yn aml â manylion gothig syml.

Ni ddechreuwyd datblygu ochr ogleddol y ffordd tan y 1930au, ond roedd wedi'i gynllunio'n dda fel cyfres o strydoedd o adeiladau hapfasnachol, a oedd yn cynnwys tai pâr gan mwyaf. Gyda rhai eithriadau, rendr gwyn oedd y gorffeniad a ffafriwyd; gyda'u bondo a'u toeon slip datblygedig, mae'r math hwn o dai yn gyffredin mewn llawer o ddatblygiadau maestrefol sy'n dyddio o'r cyfnod hwn.

*Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gyda champws y brifysgol y tu hwnt iddi (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



# 11. Y Llyfrgell Genedlaethol a Champws y Brifysgol

## Cefndir Hanesyddol

Crybwyllwyd y syniad o brifysgol i Gymru gyntaf yn y 1840au, a sefydlwyd pwyllgor i hyrwyddo'r syniad yn 1854. Ni chafodd unrhyw gefnogaeth gan y llywodraeth, ond roedd yn dibynnu ar gyfraniadau gwirfoddol i ddechrau, a oedd yn ddigon i'w gwneud yn bosibl prynu hen Westy'r Castle yn 1867, cam a ddechreuodd 'un o'r penodau mwyaf nodedig yn hanes addysg yng Nghymru'.[66] Agorodd Coleg Aberystwyth yn 1872 gyda 26 o fyfyrwyr, parhaodd i ehangu a derbyniodd ferched yn 1884. Er gwaethaf ei lwyddiant cynnar, roedd y wladwriaeth yn araf i gefnogi'r coleg a dim ond o 1885 ymlaen y derbyniodd Aberystwyth yr un lefel o arian â'r Colegau eraill yng Nghymru (a sefydlwyd ar ei ôl). Ar ôl hynny, parhaodd y coleg i ffynnu, gan ddatblygu'n 'crud i'r adfywiad diwylliannol a chenedlaethol a welwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru'.[67] Oherwydd ei lwyddiant bu'n rhaid i'r coleg ehangu, drwy ymestyn yr adeiladau gwreiddiol i ddechrau ac wedyn ymgorffori safleoedd newydd. Roedd y cyntaf o'r safleoedd hyn ar y Buarth, lle yr adeiladwyd labordai yn 1907, ac wedyn ar Benglais, lle y prynwyd 35 hectar (87 erw) i'r coleg yn 1929. Yn sgil penodi Percy Thomas yn gynghorydd pensaernïol yn 1935, lluniwyd prif gynllun ar gyfer y safle, ond nid adeiladwyd fawr ddim — dim ond y bloc ymchwil amaethyddol, y neuaddau preswyl a'r pwll nofio. Lluniwyd ail gynllun ar gyfer y safle yn 1957, ond dim ond gwaith adeiladu ysbeidiol a gafwyd nes i gynllun newydd (gan Dale Owen o Bartneriaeth Percy Thomas) gael ei fabwysiadu yn 1964–66. Er iddo gael ei adolygu yn 1974, darparodd y fframwaith ar gyfer llawer o'r gwaith a wnaed i ddatblygu'r campws presennol.

Yn y cyfamser, dechreuodd mudiad o blaid llyfrgell genedlaethol i Gymru o ddifrif yn 1873 — ymddangosai mai Aberystwyth, fel cartref y coleg prifysgol cyntaf, oedd y cartref naturiol i'r fath sefydliad. Erbyn 1904, roedd y cynnig wedi cael cefnogaeth y llywodraeth, caffaelwyd tir a rhoddwyd siarter gorffori yn 1907. Yn dilyn cystadleuaeth i gynllunio'r adeilad newydd, gosodwyd y garreg sylfaen yn 1911, a pharhaodd y gwaith mewn camau rhwng 1911–16, a 1935–37, pan oedd y prif resi wedi'u cwblhau i raddau helaeth. Mae estyniadau a datblygiadau mewnlenwi wedi dilyn wrth i'r llyfrgell barhau i ehangu.

## Potensial Archeolegol

Mae ôl cnwd a gofnodwyd ar ffotograffau cynnar a dynnwyd o'r awyr yn awgrymu bod gweithgarwch cynhanesyddol yn yr ardal hon ond nid yw'n hysbys i ba raddau y gall unrhyw nodweddion eraill fod wedi goroesi datblygiadau dilynol.

## Nodweddion Adeiladu

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol odidog yn manteisio i'r eithaf ar ei safle uchel; gyda'i neo-glasuraeth o gerrig gwyn yn codi'n sgwâr uwchlaw'r dref ar bodiwm o fan agored gwyrdd. Y tu ôl iddi, mae campws y brifysgol yn cyflwyno cymysgedd mwy eclectig o arddulliau adeiladu sy'n adlewyrchu ei ddatblygiad hir (a pharhaus).

Mae adeiladau'r cyfnod adeiladu cyntaf yn bennaf yn rhai Neo-Sioraidd a chanddynt wyneb o gerrig ond mae esthetig modernydd wedi dominyddu ers y 1960au, gan gyflwyno geometreg gerwin yn aml, yn llaw gan ddefnyddio concrid a gwydr ochr yn ochr â deunyddiau mwy traddodiadol. Mae llawer o'r adeiladau hyn yn arddangos arddulliau unigol, sy'n cyd-fynd â'u swyddogaeth, tra'u bod yn rhan annatod o dirlun a gynlluniwyd.

# Datganiad Pwysigrwydd

Mae cymeriad trefol Aberystwyth yn seiliedig ar ei rôl fel tref glan môr a sicrhaodd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond, os edrychwch yn ôl o'r bennod ganolog honno yn ei hanes, fe welwch dref ganoloesol a gynlluniwyd; os edrychwch ymlaen fe welwch brifddinas ddiwylliannol. Yn ystod ei hanes sy'n ymestyn yn ôl dros 700 o flynyddoedd, mae Aberystwyth wedi cyflawni llawer o swyddogaethau — canolfan fasnachu, tref glan môr, canolfan gymdeithasol a diwylliannol. Mae'r hanesion trefol gwahanol iawn hyn wedi creu tref eithriadol o gyfoethog yn bensaernïol.

Mae'r ffordd y gellir parhau i ddarllen ei hanes hir o ran siâp ac adeiledd y dref, yn allweddol i natur unigryw Aberystwyth. Gwaddol y dref â chastell ganoloesol, wreiddiol yw cynllun tref rheolaidd, sy'n dal i ddarparu'r fframwaith ar gyfer yr hyn sydd fel arfer yn batrwm adeiladu tynn ac amrywiol sawl canrif yn ddiweddarach. Llywiodd ei rôl fel porthladd ddatblygiad y dref o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen — o gymeriad diwydiannol cadarn ei harbwr i'r cynllun ar gyfer golau a golygfa yn nherasau ei hestyniad trefol a'i maestrefi a gynlluniwyd yn dda. Mae sefydliadau mawr y coleg, y brifysgol a'r Llyfrgell Genedlaethol, sy'n ymgodi uwchlaw'r dref, yn llythrennol ac yn drosiadol, yn dirnodau pensaernïol yn ogystal â diwylliannol.

Mae hanes economaidd a chymdeithasol manwl yn rhan gynhenid o adeiledd y dref. Os mai'r harbwr oedd canolbwynt masnach ddiwydiannol a morwrol o'r cychwyn cyntaf, prif strydoedd y dref ganoloesol a'i hestyniad sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd lleoliad masnach fanwerthu — gellir olrhain pensaernïaeth hanesyddol siopa yn adeiladau Aberystwyth o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen ac mae'n elfen bwysig o'i chymeriad heddiw. Roedd masnach yn dibynnu ar gymdeithas; mae hyn i'w weld yn y treflun o'r tai bonedd mawr i'r anheddau crefftwyr llai o faint, yng ngwestai a thai llety'r cyrchfan gwyliau, ac mewn hierarchaeth o dai maestrefol o filâu sylweddol i derasau bach. Mae nifer fawr o fathau o adeiladau wedi'u huno gan fframwaith cydlynol o weithgarwch cynllunio trefol a phatrymau datblygu — lleiniau unigol ar hyd grid strydoedd yr hen dref, gyda strydoedd ffurfiol o flociau a therasau unedig yn ei hestyniad a rhesi o dai teras a rhodfeydd o filâu yn y maestrefi. Mae'r traddodiad hir hwn o waith cynllunio (o'r dref gaerog ganoloesol i'r ystadau tai o'r ugeinfed ganrif) yn nodwedd anarferol a phwysig o'r dref.

Mae i Aberystwyth ei chymeriad pensaernïol eithriadol ei hun. Dyma bensaernïaeth mathau nodedig o adeiladau trefol, a nodweddir yn bennaf gan y tŷ teras, ond lle mae siopau, capeli a sefydliadau eraill hefyd yn bwysig. Mae deunyddiau adeiladu hefyd yn chwarae rôl hollbwysig: roedd cyflenwadau digonol o gerrig lleol yn dal i gael eu cloddio ar gyfer adeiladu ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Fodd bynnag, un o ogoniannau Aberystwyth yw'r ffordd y datblygodd crefftwyr adeiladu'r dref bensaernïaeth gyfoethog o rendr; un arall yw'r defnydd a wnaethant o ddeunyddiau a fewnforiwyd megis brics a terracotta. Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, roedd Aberystwyth wedi datblygu'n dref o liw a manylion moethus.

Os oes hanes i'w ganfod ym mhob stryd, mae trysorfa hefyd o fanylion pensaernïol a chrefftwaith. Gofalwch am y manylion a gallai ansawdd uchel y gwaith adeiladu fod yn ffynhonnell 'ryfeddod a mwynhad' heddiw.

# Ffynonellau Dethol


Harold Carter, *The Towns of Wales: A Study in Urban Geography* (Caerdydd, 1965).

Harold Carter and Sandra Wheatley, *Some Spatial Aspects of the Physical and Social Structure of Nineteenth-century Aberystwyth: A Working Paper* (Aberystwyth, 1977).

Harold Carter a Sandra Wheatley, 'Residential Patterns in Mid-Victorian Aberystwyth', yn Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977).

Tony Cornish, Francis Frith a James Plant, *Aberystwyth: A Photographic History of Your Town* (Alfreton, 2001).

John Davies, *Hanes Cymru* (Penguin, 1990).

Daniel Defoe, *A Tour through the Whole Island of Great Britain,* cyhoeddwyd gyntaf 1724–26 (Harmondsworth, 1971).

E.L. Ellis, *The University College of Wales, Aberystwyth, 1872–1972* (Caerdydd, 1972).

George Eyre Evans, *Aberystwyth and its Court Leet* (Aberystwyth, 1902).

Michael Freeman, *Aberystwyth: A History and Celebration of the Town* (Caersallog, 2005).

Michael Freeman, 'The Building of Aberystwyth Promenade', *Ceredigion*, Cyf. XV Rhif 3 (2007).

R.A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Medieval Wales* (Caerdydd, 1978).

Douglas Hague, 'The Architecture of the Town', yn Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977).

Howard C. Jones, *Aberystwyth Yesterday* (Barry, 1980).

Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977).

W.J. Lewis, *Born on a Perilous Rock: Aberystwyth Past and Present* (Aberystwyth, 1980).

W.J. Lewis, 'Some Aspects of the History of Aberystwyth', *Ceredigion*, Cyf. III Rhif. 4 (1959).

Lewis Lloyd, 'The Port of Aberystwyth in the 1840s', *Cymru a'r Môr,* Rhif. 5 (1980).

Thomas Lloyd, Julian Orbach a Robert Scourfield, *The Buildings of Wales: Carmarthenshire and Ceredigion* (New Haven a Llundain, 2006).

Gerald Morgan (gol.), *Nanteos: A Welsh House and its Families* (Llandysul, 2001).

T.O. Morgan, *Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1848).

T.O. Morgan, *New Guide to Aberystwyth and its Surroundings (*Aberystwyth, 1864).

T.L.J. Pritchard, *New Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1824).

J. Beverley Smith, 'The Foundation of the Borough', yn Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977).

C.J. Spurgeon, 'The Castle and Borough to 1649', yn Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977).

Henry Wigstead, *Remarks on a Tour to North and South Wales in the Year 1797* (Llundain, 1800).

# Adnoddau Ar-lein

Prifysgol Aberystwyth, yr Adran Hanes a Hanes Cymru, Prosiect Porthladdoedd a Threfi Gwyliau: Llyfryddiaeth Aberystwyth *http://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/history/ports_and_resorts_aberystwyth.pdf*

Llyfrgell Ceredigion, Llyfryddiaeth Sir Aberteifi 1600-1968: Aberystwyth http:://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=12830

Archifdy Ceredigion (*http://archifdy-ceredigion.org.uk*), sy'n cynnwys mynegai i Gynlluniau Rheoli Adeiladu Bwrdeistref Aberystwyth. Cedwir y cynlluniau eu hunain yn Archifdy Ceredigion ac maent yn ffynhonnell bwysig ar gyfer manylion adeiladu yn dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

Chris Chadwick, llyfryddiaeth a luniwyd yn 2007, *http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=3833* pp. 43-124.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) Mae Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn dal y casgliad cenedlaethol o archifau ar gyfer treftadaeth adeiledig Cymru, gan gynnwys lluniau arolygu, arolygon ffotograffig, ffotograffau o'r awyr, mapiau, adroddiadau a deunydd archif hanesyddol. Ceir rhagor o wybodaeth drwy Coflein, sef cronfa ddata ar-lein y Comisiwn Brenhinol sydd am ddim *www.coflein.gov.uk*

# Delweddau a Ffotograffau

Mae Aberystwyth yn ffodus o gael cryn dipyn o dystiolaeth ddarluniadol a ffotograffig o ddatblygiad y dref o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen. Cedwir casgliadau pwysig gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, CBHC, Amgueddfa Ceredigion a Llyfrgell Ceredigion (Aberystwyth), y mae rhywfaint o'i chasgliad ar-lein yn: *http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=12830*

# Ôl-nodion

1. T.L.J. Pritchard, *New Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1824).
2. R.A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Medieval Wales* (Caerdydd, 1978).
3. R.A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Medieval Wales* (Caerdydd, 1978); C.J. Spurgeon, 'The Castle and Borough to 1649', yn Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977).
4. J. Beverley Smith, 'The Foundation of the Borough', yn Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977).
5. R.A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Medieval Wales* (Caerdydd, 1978); Beverley Smith, 'The Foundation of the Borough', yn Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977).
6. R.A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Medieval Wales* (Caerdydd 1978).
7. R.A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Medieval Wales* (Caerdydd, 1978).
8. J. Beverley Smith, 'The Foundation of the Borough', yn Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977).
9. W.J. Lewis, 'Some aspects of the history of Aberyswyth', *Ceredigion*, Cyf. III, Rhif 4 (1959).
10. J. Taylor, A Short Relation of a Long Journey made Round or Oval by encompassing Wales from London .. begun on Tuesday the 13th of July last, 1652, and ended on Tuesday the 7 of September following being near 600 miles', dyfynnwyd yn Tony Cornish, Francis Frith a James Plant, *Aberystwyth: A Photographic History of your Town* (Alfreton, 2001).
11. Richard Blome, 'Britannia, 1673', dyfynnwyd yn George Eyre Evans, *Aberystwyth and its Court Leet* (Aberystwyth, 1902).
12. George Eyre Evans, *Aberystwyth and its Court Leet* (Aberystwyth, 1902).
13. Daniel Defoe, *A Tour through the Whole Island of Great Britain*, cyhoeddwyd gyntaf 1724–26 (Harmondsworth, 1971).
14. W.J. Lewis, *Born on a Perilous Rock* (Aberystwyth, 1980).
15. Henry Wigstead, *Remarks on a Tour to North and South Wales in the Year 1797* (Llundain, 1800).
16. T.L.J. Pritchard, *New Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1824).
17. Michael Freeman, *Aberystwyth: A History and Celebration of the Town* (Salisbury, 2005); gwybodaeth am Brydlesau Ystad Nanteos yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan Caroline Palmer.
18. W.J. Lewis, *Born on a Perilous Rock* (Aberystwyth, 1980).
19. Thomas Lloyd, Julian Orbach a Robert Scourfield, *The Buildings of Wales: Carmarthenshire and Ceredigion* (New Haven a Llundain, 2006).
20. T.L.J. Pritchard, *New Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1824).
21. T.O. Morgan, *Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1848).
22. T.L.J. Pritchard, *New Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1824).
23. Dyfynnwyd yn W.J. Lewis, *Born on a Perilous Rock* (Aberystwyth, 1980).
24. Michael Freeman, 'The Building of Aberystwyth Promenade', *Ceredigion,* Cyf. XV Rhif 3 (2007).
25. T.L.J. Pritchard, *New Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1824).

26. T.O. Morgan, *Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1848).

27. Dyfynnwyd yn Lewis Lloyd, 'The Port of Aberystwyth in the 1840s', *Cymru a'r Môr*, Rhif 5 (1980).

28. T.O. Morgan, *Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1848).

29. T.O. Morgan, *New Guide to Aberystwyth and its Surroundings* (Aberystwyth, 1864).

30. *Guide to Aberystwyth, the Brighton of Wales,* 1874.

31. George Eyre Evans, *Aberystwyth and its Court Leet* (Aberystwyth, 1902).

32. George Eyre Evans, *Aberystwyth and its Court Leet* (Aberystwyth, 1902).

33. W.J. Lewis, *Born on a Perilous Rock* (Aberystwyth, 1980).

34. W.J. Lewis, *Born on a Perilous Rock* (Aberystwyth, 1980).

35. William Couling, Map o Dref a Bwrdeistref Aberystwyth yn 1809. Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Nanteos (copi yn Archifdy Ceredigion).

36. George Eyre Evans, *Aberystwyth and its Court Leet* (Aberystwyth, 1902); W.J. Lewis, *Born on a Perilous Rock* (Aberystwyth, 1980).

37. T.O. Morgan, *New Guide to Aberystwyth and its Surroundings* (Aberystwyth, 1864).

38. Thomas Lloyd, Julian Orbach a Robert Scourfield, *The Buildings of Wales: Carmarthenshire and Ceredigion* (New Haven a Llundain, 2006).

39. Thomas Lloyd, Julian Orbach a Robert Scourfield, *The Buildings of Wales: Carmarthenshire and Ceredigion* (New Haven a Llundain, 2006).

40. T.O. Morgan, *New Guide to Aberystwyth and its Surroundings* (Aberystwyth, 1864).

41. *The Times*, dyfynnwyd yn T.O. Morgan, *New Guide to Aberystwyth and its Surroundings* (Aberystwyth, 1864).

42. Gwybodaeth gan Michael Freeman.

43. Michael Freeman, *Aberystwyth: A History and Celebration of the Town* (Salisbury, 2005), yn dyfynnu o'r Cambrian News ar 8fed Tachwedd 1895.

44. Mae llawer o'r datblygiad hwn wedi'i gofnodi yng Nghynlluniau Rheoli Adeiladu Bwrdeistref Aberystwyth, Archifau Ceredigion.

45. W.J. Lewis, *Born on a Perilous Rock* (Aberystwyth, 1980).

46. W.J. Lewis, *Born on a Perilous Rock* (Aberystwyth, 1980).

47. W.J. Lewis, *Born on a Perilous Rock* (Aberystwyth, 1980).

48. T.O. Morgan, *New Guide to Aberystwyth and its Surroundings* (Aberystwyth, 1864).

49. Harold Carter a Sandra Wheatley, *Some Spatial Aspects of the Physical and Social Structure of Nineteenth-century Aberystwyth: A Working Paper* (Aberystwyth, 1977); Harold Carter a Sandra Wheatley, 'Residential Patterns in Mid-Victorian Aberystwyth', yn Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977*, (Llandysul, 1977).

50. T.O. Morgan, *New Guide to Aberystwyth and its Surroundings* (Aberystwyth, 1864).

51. Gwybodaeth gan Michael Freeman.

52. T.O. Morgan, *Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1848).

53. Thomas Lloyd, Julian Orbach a Robert Scourfield, *The Buildings of Wales: Carmarthenshire and Ceredigion* (New Haven a Llundain, 2006).

54. Michael Freeman, *Aberystwyth: A History and Celebration* (Caersallog, 2005).

55. Archifdy Ceredigion, Cynlluniau Rheoli Adeiladu Bwrdeistref Aberystwyth.

56. George Eyre Evans, *Aberystwyth and its Court Leet* (Aberystwyth, 1902); Thomas Lloyd, Julian Orbach a Robert Scourfield, T*he Buildings of Wales: Carmarthenshire and Ceredigion* (New Haven a Llundain, 2006).

57. George Eyre Evans, *Aberystwyth and its Court Leet* (Aberystwyth, 1902); Thomas Lloyd, Julian Orbach a Robert Scourfield, *The Buildings of Wales: Carmarthenshire and Ceredigion* (New Haven a Llundain 2006).

58. T.O. Morgan, *Aberystwyth Guide* (Aberystwyth, 1848).

59. T.O. Morgan, *New Guide to Aberystwyth and its Surroundings* (Aberystwyth, 1864).

60. George Eyre Evans, *Aberystwyth and its Court Leet* (Aberystwyth, 1902), gan gyfeirio at gyflwyniadau i'r Pentreflys yn 1813.

61. George Eyre Evans, *Aberystwyth and its Court Leet* (Aberystwyth, 1902), gan gyfeirio at gyflwyniadau i'r Pentreflys yn 1813.

62. Lewis Lloyd, 'The Port of Aberystwyth in the 1840s', *Cymru a'r Môr*, Rhif 5 (1980).

63. C.J. Spurgeon, 'The Castle and Borough to 1649', in Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977).

64. T.O. Morgan, *New Guide to Aberystwyth and its Surroundings* (Aberystwyth, 1864).

65. T.O. Morgan, *New Guide to Aberystwyth and its Surroundings* (Aberystwyth, 1864).

66. John Davies, *Hanes Cymru* (Penguin, 1990).


67. John Davies, *Hanes Cymru* (Penguin, 1990).

1 Y dref ganoloesol, yn dangos muriau, ffyrdd, bwrdeisi ac ardal adeiledig





Hawlfraint: Michael Freeman

## 2 Y dref tua 1800





Hawlfraint: Michael Freeman

## 3 Y dref tua 1820–21





Hawlfraint: Michael Freeman

## 4 Y dref tua 1834




Hawlfraint: Michael Freeman


## 5 Y dref tua 1889







Argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans (25 modfedd) — Ⓗ a hawl cronfa ddata 'Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group Ltd' (Cedwir pob hawl 2012)

## 6 Y dref tua 1905




Argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans (25 modfedd) — ⓗ a hawl cronfa ddata 'Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group Ltd' (Cedwir pob hawl 2012)


## 7 Pob Ardal â Nodweddion






Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi. Ⓒ Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.

8 Pob Ardal â Nodweddion gyda Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, Parciau a Gerddi Cofrestredig a'r Ardal Gadwraeth




Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.


## 9 Yr Hen Dref (ardal 1)







Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.

## 10 Rhodfa'r Môr a'r Promenâd (ardal 2)





Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.

11 Sgwâr Owain Glyndŵr, Rhodfa'r Gogledd, Stryd Portland, Ffordd Alexandra a Ffordd y Môr (ardal 3)





Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.

## 12 Yr Harbwr (ardal 4)




Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi . © Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.


## 13 Trefechan (ardal 5)







Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.

## 14 Ardal Morfa Mawr a Ffordd y Gogledd (ardal 6)




Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.


## 15 Ardal Coedlan y Parc (ardal 7)






Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.

## 16 Y Buarth a Phlascrug (ardal 8)




Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.


## 17 Ardal Ffordd Llanbadarn (ardal 9)







Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi.© Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.

## 18 Penglais (ardal 10)




Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.

## 19 Y Llyfrgell Genedlaethol a Champws y Brifysgol (ardal 11)






Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi. Ⓒ Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2012.
Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cymru. Rhif y drwydded 100017916.